Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 3
# (2025 – 2029)

## Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Terfynol:
## Atodiad B  Llinell Sylfaen

Ionawr 2026

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

# Cynnwys


2.1 Cyfanswm y boblogaeth a thueddiadau ................................................ 3
3.1 Proffil Stoc Tai ................................................ 11
5.2 Cyfraddau diweithdra ................................................ 28
5.3 Cyfraddau cyflogaeth ................................................ 29
5.4 Diwydiannau cyflogaeth ................................................ 30
5.5 Tlodi yn ystod Plentyndod ................................................ 32
6.1 Busnes ................................................ 34
6.2 Amaethyddiaeth ................................................ 35
6.3 Twristiaeth ................................................ 36
6.4 Hamdden ................................................ 37
6.5 Addysg a Sgiliau ................................................ 41
6.6 Mynediad at wasanaethau ................................................ 42
6.7 Band Eang ................................................ 43
7.1 Y Gymraeg ................................................ 44
9.1 Perchnogaeth ceir ................................................ 69
10.1 Llygredd aer/ansawdd aer ................................................ 70
10.2 Ansawdd dŵr ................................................ 75
11.1 Trosolwg ................................................ 89
11.2 Llifogydd ................................................ 90
12.2 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ............ 100
12.3 Safleoedd Rhwydweithiau Natur ................................................ 101
12.4 Geoamrywiaeth ................................................ 136
12.5 Pridd ................................................ 136
12.6 Mawndir ................................................ 136
15.1 Sbwriel ................................................ 144
15.2 Tipio anghyfreithlon ................................................ 145

# 1 Cyffredinol a Phobl

## 1.1 Cyfanswm y boblogaeth a thueddiadau

1.1.1 Roedd poblogaeth breswyl y Parc Cenedlaethol ar adeg cyfrifiad 2021 yn 20,933, gostyngiad o 7.6% yn y boblogaeth o'i gymharu â Chyfrifiad 2011 (22,644), y dirywiad mwyaf ym mhoblogaeth unrhyw un o'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr rhwng y ddau gyfrifiad.

1.1.2 Dangosir strwythur oedran poblogaeth arferol Parc Cenedlaethol yng nghyfrifiad 2011 a 2021 yn y siart isod. Bu gostyngiad yn nifer y preswylwyr ym mhob categori oedran 60 i 64 oed ac iau a chynnydd ym mhob categori oedran dros 65 oed.

## 1.2 Poblogaeth ac Oedran




Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2011/2021

1.2.1 Mae data Cyfriad 2021 yn dangos bod dros draean (33.1%) o boblogaeth y Parc Cenedlaethol yn 65 oed neu'n hŷn, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 21.3%. Yn y Parc Cenedlaethol, mae 1.4% yn 90 oed neu'n hŷn. Oedran canolrifol y preswylwyr oedd 54 oed, yr uchaf o blith y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.

1.2.2 Mae amcanestyniadau o'r boblogaeth hyd 2043 wedi'u paratoi gan Lywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon o boblogaeth canol

blwyddyn 2018, ar gyfer y Parc Cenedlaethol a'r rhan o Sir Benfro sydd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.  Dangosir y rhain yn y siart isod:




Ffynhonnell y data: ONS/Llywodraeth Cymru (Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl blwyddyn a pharc cenedlaethol (llyw.cymru))

1.2.3 Fel y nodwyd uchod, roedd poblogaeth y Parc Cenedlaethol yn sylweddol is na'r amcanestyniad hwn. Rhagfynegwyd poblogaeth o tua 22,460 yn y model hwn o'i gymharu â'r ffigur o 20,933 a gofnodwyd yng nghyfrifiad 2021. Disgwylir rhagor o amcanestyniadau o'r boblogaeth sy'n seiliedig ar gyfrifiad 2021 neu amcangyfrifon canol blwyddyn mwy diweddar.

## 1.3 Dosbarthiad y boblogaeth

1.3.1 Mae'r map canlynol yn dangos patrwm anheddu'r Parc Cenedlaethol a'r ardaloedd cyfagos yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.  Mae pob dot yn dangos cyfeiriad yn set ddata Pwynt Cyfeiriadau'r Arolwg Ordnans[1] ar gyfer Ebrill 2023.

[1] © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata yr Arolwg Ordnans AC0000810561




1.3.2 Mae dosbarthiad y pwyntiau ar y map hwn yn awgrymu fod poblogaeth gref yn y Parc Cenedlaethol hyd yn oed y tu allan i'r pentrefi a'r trefi gyda dim ond ychydig o ardaloedd heb eu poblogi, h.y. Bryniau'r Preseli a Maes Tanio Castellmartin.

## 1.4 Mudo

1.4.1 Mae data mudo a gafwyd o gofnodion yr Awdurdod Iechyd yn dangos mewnlif net i Sir Benfro o weddill y DU.

| Blwyddyn | Net Cymru | Mewnlif Sir Benfro | All-lif Sir Benfro | Net Sir Benfro |
|---|---|---|---|---|
| 2012-2013 | -1,875 | 3930 | 3630 | 300 |
| 2013-2014 | -108 | 4090 | 3630 | 460 |
| 2014-2015 | -1,233 | 3720 | 3680 | 40 |
| 2015-2016 | 2,258 | 4410 | 3680 | 730 |
| 2016-2017 | 5,787 | 4424 | 3669 | 755 |
| 2017-2018 | 6,912 | 4410 | 3794 | 616 |
| 2018-2019 | 7,391 | 4779 | 3651 | 1128 |
| 2019-2020 | 26,281 | 4174 | 2859 | 1315 |
| 2020-2021 | 9,415 | 5,596 | 3,744 | 1,852 |
| 2021-2022 | 10,652 | 4,578 | 3,497 | 1,081 |

StatsCymru: Mudo rhwng Cymru a gweddill y DU yn ôl awdurdod lleol, llif a chyfnod newid

### Rhyw

| Rhyw | Sir Benfro (%) | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|
| Benyw | 51.3 | 51.4 | 51.1 |
| Gwryw | 48.7 | 48.6 | 48.9 |

Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021 Nomis - Query Tool - TS008 - Sex

### Ethnigrwydd

| Grŵp ethnig | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (%) | Sir Benfro (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 0.7 | 0.9 | 2.9 |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0.1 | 0.2 | 0.9 |
| Grwpiau Cymysg neu Amlethnig | 0.8 | 0.9 | 1.6 |
| Gwyn | 98.1 | 97.6 | 93.8 |
| Grŵp ethnig arall | 0.3 | 0.3 | 0.9 |

Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021 Nomis - Query Tool - TS021 - Ethnic group

1.4.2 Mae poblogaeth y Parc Cenedlaethol yn wyn yn bennaf. Mae 98.1% o'r boblogaeth yn wyn, sy'n uwch na Sir Benfro (97.6%) ac yn sylweddol uwch na Chymru gyfan (93.8%).

### Cyfeiriadedd rhywiol

| Cyfeiriadedd rhywiol | Sir Benfro (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|
| Syth neu Heterorywiol | 89.8 | 89.4 |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 1.1 | 1.5 |

| | | |
|---|---|---|
| **Deurywiol** | **1.0** | **1.2** |
| **Pob cyfeiriadedd rhywiol arall** | **0.2** | **0.3** |
| **Heb ateb** | **7.9** | **7.6** |

Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021 Nomis - Query Tool - TS077 - Sexual orientation

1.4.3 Mae'r ffigurau o gyfrifiad 2021 ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol yn weddol gyson â chyfartaledd Cymru.

**Hunaniaeth o ran rhywedd**

| Hunaniaeth o ran rhywedd | Sir Benfro (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|
| **Hunaniaeth o ran rhywedd yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni** | **93.4** | **93.3** |
| **Hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni ond ni roddwyd hunaniaeth benodol** | **0.1** | **0.2** |
| **Menyw draws** | **0.1** | **0.1** |
| **Dyn traws** | **0.1** | **0.1** |
| **Pob hunaniaeth arall o ran rhywedd** | **0.1** | **0.1** |
| **Heb ateb** | **6.3** | **6.3** |

Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021 Nomis - Query Tool - TS078 - Gender identity

1.4.4 Yng Nghyfrifiad 2021, roedd yr ystadegau ar gyfer hunaniaeth o ran rhywedd yn Sir Benfro yn weddol gyson â'r ystadegau ar gyfer Cymru gyfan.

**Crefydd**

| Crefydd | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (%) | Sir Benfro (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|
| **Dim crefydd** | **39.0** | **43.0** | **46.5** |
| **Cristnogaeth** | **52.9** | **48.8** | **43.6** |
| **Bwdhaeth** | **0.4** | **0.4** | **0.3** |
| **Hindŵaeth** | **0.1** | **0.1** | **0.4** |
| **Iddewiaeth** | **0.1** | **0.0** | **0.1** |
| **Islam** | **0.3** | **0.5** | **2.2** |
| **Sikhiaeth** | **0.0** | **0.0** | **0.1** |
| **Crefydd arall** | **0.6** | **0.6** | **0.5** |
| **Heb ateb** | **6.5** | **6.6** | **6.3** |

Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021 Nomis - Query Tool - TS030 - Religion

Cristnogaeth yw'r brif grefydd yn y Parc Cenedlaethol (52.9%), lle mae cyfran uwch o Gristnogion nag yn Sir Benfro (48.8%) a Chymru (43.6) yn gyffredinol.

**Statws Priodasol (Trefniant byw)**

| Trefniadau byw | Arfordir Sir Benfro (%) | Sir Benfro (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|
| Byw fel cwpl: Yn briod neu mewn partneriaeth sifil | 49.7 | 46.5 | 43.3 |
| Byw fel cwpl: Cyd-fyw | 11.8 | 13.3 | 14.2 |
| Ddim yn byw fel cwpl | 38.4 | 40.2 | 42.4 |

Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021 Nomis - Query Tool - TS010 - Living arrangements

**Crynodeb Cyffredinol a Phobl**

- **Gostyngodd poblogaeth y Parc Cenedlaethol 7.6% rhwng cyfrifiadau 2011 a 2021, y gostyngiad mwyaf o'r holl Barciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr.**
- **Mae gan y Parc Cenedlaethol boblogaeth sy'n heneiddio. Yr oedran canolrifol yw 54 ac mae tua thraean o'r boblogaeth yn 65+ oed.**
- **Mae'r Parc Cenedlaethol yn wyn yn bennaf (98.1%), gyda chyfran uwch na Sir Benfro (97.6) a chyfran sylweddol uwch na Chymru (93.8%) yn gyffredinol.**

# 2 Tai

## 2.1 Proffil Stoc Tai

**Nifer yr Aelwydydd**[2]: 9,781

| Math o lety | Cyfrifiad 2021 | |
|---|---|---|
| | **nifer** | **%** |
| Cyfanswm | 9,781 | 100.0 |
| Tŷ ar wahân | 4,864 | 49.7 |
| Tŷ pâr | 2,491 | 25.5 |
| Tŷ teras | 1,206 | 12.3 |
| Mewn bloc o fflatiau neu denement a adeiladwyd yn bwrpasol | 741 | 7.6 |
| Yn rhan o dŷ wedi'i addasu neu dŷ sy'n cael ei rannu, gan gynnwys fflatiau un ystafell | 180 | 1.8 |
| Rhan o adeilad arall wedi'i addasu, er enghraifft, hen ysgol, eglwys neu warws | 72 | 0.7 |
| Mewn adeilad masnachol, er enghraifft, mewn adeilad o swyddfeydd, gwesty, neu uwchben siop | 149 | 1.5 |
| Carafán neu fath arall o gartref symudol neu dros dro | 78 | 0.8 |

Cyfrifiad 2021 - TS044 - Accommodation type

**Y stoc dai**

| Deiliadaeth y cartref | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (%) | Sir Benfro (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|
| **Yn berchen arno** | 70.5 | 67.0 | 66.1 |
| Yn berchen arno'n gyfan gwbl | 52.0 | 44.4 | 38.0 |
| Yn berchen gyda morgais neu fenthyciad | 18.5 | 22.6 | 28.0 |
| | | | |
| **Cynllun Rhanberchnogaeth** | 0.3 | 0.3 | 0.3 |
| Cynllun Rhanberchnogaeth: Cynllun Rhanberchnogaeth | 0.3 | 0.3 | 0.3 |
| | | | |
| **Rhentu cymdeithasol** | 12.4 | 16.2 | 16.5 |
| Wedi'i rentu'n gymdeithasol: Yn cael ei rentu gan gyngor neu Awdurdod Lleol | 8.0 | 10.3 | 8.7 |

[2] Cyfrifiad 2021, Nomis - Query Tool - TS041 - Number of Households

| | | | |
|---|---|---|---|
| Math arall o rentu cymdeithasol arall | 4.4 | 6.0 | 7.8 |
| | | | |
| **Rhentu preifat** | 16.7 | 16.4 | 17.0 |
| Wedi'i rentu'n breifat: Landlord preifat neu asiantaeth gosod tai | 12.5 | 13.1 | 14.5 |
| Wedi'i rentu'n breifat: Math arall o rentu preifat | 4.2 | 3.3 | 2.5 |
| **Yn byw yn y cartref heb dal rhent** | 0.1 | 0.1 | 0.2 |
| **Yn berchen ar eu cartref gyda morgais neu fenthyciad neu gynllun rhanberchnogaeth** | 18.8 | 22.9 | 28.4 |
| **Yn rhentu'n breifat neu'n byw heb dalu rhent** | 16.7 | 16.5 | 17.1 |

**Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Nomis - Query Tool - TS054 - Tenure**

2.1.1 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi cyfansoddiad aelwydydd a oedd yn preswylio yn y Parc Cenedlaethol rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021.

| **Blwyddyn** | **Pob aelwyd** | **Aelwydydd un person** | **Aelwyd un teulu â phlant dibynnol** | **Aelwyd un teulu: Dim Plant** | **Mathau eraill o aelwydydd: pob un** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2011 | 10,277 | 3,386 | 2255 | 2009 | 342 |
| 2021 | 9,779 | 3,363 | 1634 | 1771 | 473 |
| Newid | -498 | -23 | -621 | -238 | +131 |

**Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 a 2011**

## 2.2 Tai i Bobl Hŷn

2.2.1 Dangosodd Cyfrifiad 2021 yn Sir Benfro fod cyfran y rhai 65 oed a throsodd sy'n byw mewn sefydliad cymunedol wedi gostwng o 3.7% yn 2011 i 2.9% yn 2021

2.2.2 Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 a 2021 (Tablau: TS047 - Preswylwyr sefydliadau cymunedol yn ôl oedran a rhyw (Cyfrifiad 2021), DC4210EWLA

- Y math o sefydliad cymunedol, a'r gwaith o'i reoli yn ôl rhyw yn ôl oedran (Cyfrifiad 2011).

## 2.3 Nifer tai'r farchnad a thai fforddiadwy a gwblhawyd

2.3.1 Mae fforddiadwyedd tai yn fater pwysig iawn yn y Parc Cenedlaethol, gyda phrisiau tai ar y farchnad yn sylweddol uwch nag yng ngweddill y wlad yn gyffredinol. Mae'r niferoedd a gwblhawyd yn achos unedau tai fforddiadwy (rhentu cymdeithasol yn bennaf, wedi bod yn dda dros gyfnod y CDLl cyfredol o'i gymharu â lefelau hanesyddol). Mae'r tabl canlynol yn dangos niferoedd tai'r farchnad a thai fforddiadwy a gwblhawyd er mwyn cymharu.

| **Blwyddyn** | **Nifer a Gwblhawyd** | **Fforddiadwy** |
|---|---|---|
| 2015 - 2016 | 46 | 1 |
| 2016 -2017 | 69 | 46 |
| 2017 - 2018 | 37 | 3 |
| 2018 - 2019 | 67 | 14 |
| 2019 - 2020 | 77 | 25 |
| 2020 - 2021 | 103 | 39 |
| 2021 - 2022 | 92 | 38 |
| 2022 – 2023 | 35 | 17 |
| 2023 – 2024 | 52 | 27 |
| 2024 – 2025 | 55 | 22 |
| **Cyfanswm** | **526** | **183** |

**Ffynhonnell y data: Llwybr tai APCAP**

## 2.4 Yr angen am dai

2.4.1 Adran Dai Cyngor Sir Penfro sy'n cynnal y rhestr aros am dai cymdeithasol yn y Sir. Defnyddir y rhestr i baratoi'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL). Mae'r AFDL diweddaraf ar gyfer 2023 yn dangos yr angen canlynol yn y Sir yn ôl deiladaeth:

**Yr angen blynyddol am dai fforddiadwy ymhlith aelwydydd mewn angen cyfredol yn Sir Benfro (Amcangyfrif 15 Mlynedd)**

| Lleoliad | Rhentu Cymdeithasol | Rhentu Canolradd a Pherchentyaeth Cost Isel | Tai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|
| Y Parc Cenedlaethol | 190 | 81 | 271 |
| Y Tu Allan i'r Parc Cenedlaethol | 2,152 | 631 | 2,783 |
| Sir Benfro gyfan | 2,342 | 712 | 3,054 |

Ffynhonnell: Cofrestr Dai Cyngor Sir Penfro, 2021; proffil incwm aelwydydd CACI ar gyfer Sir Benfro, 2024, Asesiad o Farchnad Dai Leol Sir Benfro 2025.

Digartrefedd

2.4.2 Mae data a gasglwyd ar gyfer yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023 yn dangos bod digartrefedd wedi cynyddu rhwng 2018 a 2022.



Ffynhonnell: Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023 - Aelwydydd y daethpwyd o hyd i lety dros dro iddynt yn ôl y math o lety a'r math o aelwyd, Llywodraeth Cymru, 2023.

## 2.5 Ail gartrefi a chartrefi gwyliau

2.5.1 Ar adeg Cyfrifiad 2011 roedd gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro un o'r canrannau uchaf o aelwydydd heb "breswylydd arferol" yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn arwydd o ail gartref neu dŷ gwyliau. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr aelwydydd heb breswylydd arferol yn y Parc Cenedlaethol, yn Sir Benfro ac yng Nghymru. Nid yw'r data hwn ar gael o Gyfrifiad 2021.

| Ardal | Pob aelwyd | Nifer yr ail gartrefi / cartrefi gwyliau | Canran yr ail gartrefi / cartrefi gwyliau |
|---|---|---|---|
| **PCAP** | 14,207 | 3,937 | 27.7% |
| **Sir Benfro** | 60,668 | 7,590 | 12.5% |
| **Cymru** | 1,383,814 | 82,845 | 6% |

**Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2011**

2.5.2 Yng Nghymru, Sir Benfro sydd â nifer uchaf ond un o ail gartrefi, ar ôl Gwynedd. Mae newid Llywodraeth Cymru i'r trothwyon o ran nifer y diwrnodau gosod er mwyn bod yn gymwys ar gyfer trethi annomestig yn effeithio ar yr ystadegau ar gyfer ail gartrefi a llety tymor byr.

**Ail Gartrefi**

| **Blwyddyn** | **Hyd-17** | **Hyd-18** | **Hyd-19** | **Hyd-20** | **Hyd-21** | **Hyd-22** | **Hyd-23** | **Hyd-24** | **Awst-25** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ail gartrefi y gellir codi Premiwm arnynt** | **3,889** | **3,787** | **3,719** | **3,655** | **3,641** | **3,574** | **3,411** | **3,224** | **3,612** |
| **Eithriadau i'r premiwm** | **137** | **396** | **467** | **443** | **377** | **422** | **540** | **670** | **847** |
| **Cyfanswm nifer yr** | **4,026** | **4,183** | **4,186** | **4,098** | **4,018** | **3,996** | **3,951** | **3,894** | **4,459** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ail gartrefi** | | | | | | | | | |

**Unedau Hunanddarpar (Ardrethi Annomestig)**

| **Blwyddyn** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer yr unedau hunanddarpar** | **1,365** | **1,709** | **1,896** | **2,049** | **2,282** | **2,474** | **2,650** | **2,417** | **1,799** |

**Eiddo Gwag Hirdymor**

| **Math o Eiddo** | **Nifer yr Eiddo yn 2024** | **Nifer yr Eiddo yn 2025** |
|---|---|---|
| **Heb ei feddiannu, heb ei ddodrefnu ac yn cael ei adnewyddu (uchafswm o 12 mis) – Dosbarth A** | **167** | **193** |
| **Heb ei feddiannu a heb ei ddodrefnu (uchafswm o 6 mis) – Dosbarth C** | **572** | **556** |
| **Tâl 100% gwag (ar ôl eithriad dosbarth A neu C)** | **701** | **719** |
| **Eithriad premiwm gwag – Dosbarth 1*** | **54** | **64** |
| **Eithriad premiwm gwag – Dosbarth 2**** | **1** | **8** |
| **Eithriad premiwm gwag – Dosbarth 3***** | **10** | **11** |
| **Eithriad premiwm gwag – Dosbarth 4****** | **0** | **0** |
| **Premiwm eiddo gwag tymor hir** | **100% - 320<br>200% - 96<br>300% - 171** | **300% - 465** |

Diffiniadau o’r Dosbarthiadau:

* Dosbarth 1: Anheddau sydd ar y farchnad i’w gwerthu

** Dosbarth 2: Anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod

*** Dosbarth 3: Anecsau sy'n ffurfio rhan o'r brif annedd, neu sy'n cael eu trin fel rhan o’r brif annedd

**** Dosbarth 4: Anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa i rywun pe na bai'n byw mewn llety i'r lluoedd arfog

2.5.3 Prif ystyriaethau:

- Mae nifer yr eiddo sy’n destun premiwm y Dreth Gyngor wedi cynyddu oherwydd bod eiddo yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr ardrethu annomestig (NDR) i'r Dreth Gyngor, gyda rhai yn dal i fod yn destun apêl i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA).

- Mae nifer yr unedau hunanddarpar wedi gostwng, o 2,046 ym mis Ebrill 2025 i 1,799 erbyn Awst 2025, yn bennaf oherwydd adolygiadau VOA a throthwyon gosod diwygiedig.

- Mae gostyngiad bach yng nghyfanswm nifer yr ail gartrefi a'r llety gwyliau rhwng 2024 a 2025, gyda'r niferoedd yn sefydlogi ar ôl newidiadau i bremiwm y Dreth Gyngor.

- Mae un o bob wyth eiddo a symudodd i'r Dreth Gyngor yn parhau i fod yn llety gwyliau ac yn eithriad Dosbarth 6 i bremiwm y Dreth Gyngor oherwydd cyfyngiadau meddiannaeth cynllunio.

- Mae'r farchnad eiddo yn ddeinamig: Symudodd 426 o eiddo i'r Dreth Gyngor o ardrethi annomestig rhwng Ebrill 2025 ac Awst 2025, tra bod 80 wedi symud y ffordd arall.

- Mae nifer yr eiddo gwag hirdymor sy'n ddarostyngedig i bremiwm y Dreth Gyngor wedi gostwng o 550 ym mis Ebrill 2025 i 474 erbyn mis Medi 2025.

- Premiwm cyfartalog y Dreth Gyngor ail gartrefi Band D (gan gynnwys praesept y Cyngor tref a chymuned a'r heddlu) ar hyn o bryd yw £3,089.73 ar gyfer 2025-26.

- Premiwm y Dreth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor Band D ar gyfartaledd (gan gynnwys praesept y Cyngor tref a chymuned a'r heddlu) ar hyn o bryd yw £6,176.46 ar gyfer 2025-26.

- Mae presenoldeb nifer sylweddol o ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn effeithio ar ystadegau poblogaeth Sir Benfro, gan leihau cyllid yr Awdurdod drwy ddosbarthu gofynion gwasanaeth o'i gymharu â phe bai'r rhain yn gartrefi arferol i deuluoedd lleol.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro - [Adroddiad y Cabinet Adolygiad o Bremiymau'r Dreth Gyngor a'r Polisi Disgownt Dewisol]

2.5.4 Gellir defnyddio data o'r Dreth Gyngor a chymhwyso Ardrethi Annomestig i amcangyfrif canran yr ail gartrefi a llety gwyliau'n fwy rheolaidd ac yn fwy manwl. Mae'r tabl isod yn rhoi amcangyfrif o'r canran o ail gartrefi a llety gwyliau mewn canolfannau yn y Parc Cenedlaethol fel y'u diffinnir gan Gynllun Datblygu Lleol 2:

| Enw'r Ganolfan | Amcangyfrif o'r Ganran – Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau |
|---|---|
| Amroth | 46 |
| Angle | 18 |
| Bosherston | 25 |
| Broad Haven | 30 |
| Carew | 0 |
| Castlemartin | 4 |
| Cosheston | 0 |
| Cosheston | 0 |
| Crymych | 0 |
| Dale | 35 |
| Dinas Cross | 13 |
| Felindre Farchog | 5 |
| Herbrandston | 4 |
| Hook | 0 |
| Houghton | 0 |
| Jameston | 6 |
| Lamphey | 0 |
| Lawrenny | 27 |
| Little Haven | 51 |
| Lydstep | 14 |
| Manorbier | 12 |
| Manorbier Station | 0 |
| Marloes | 28 |
| Milton | 0 |
| Moylegrove | 17 |
| New Hedges | 8 |
| Newgale | 30 |
| Newport | 30 |
| Nolton Haven | 54 |
| Porthgain | 24 |
| Roch | 33 |
| Rosebush | 9 |
| Saundersfoot | 28 |
| Solva | 19 |

| | |
|---|---|
| **Square & Compass** | **13** |
| **St David's** | **18** |
| **St Ishmael's** | **10** |
| **Tenby** | **28** |
| **Trefin** | **25** |
| **Wiseman's Bridge** | **29** |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro 2025

2.5.5 Mae'r data hyn yn awgrymu, mewn llawer o achosion, bod canran yr ail gartrefi a llety gwyliau'n sylweddol uwch nag y mae cyfartaledd y cyfrifiad yn ei awgrymu.

## 2.6 Prisiau tai

2.6.1 Mae prisiau tai yn y Parc Cenedlaethol wedi codi'n gyflym ers 2013, ac ar y cyfan maent yn uwch nag yng ngweddill Sir Benfro, a Chymru. Mae'r siart canlynol yn dangos y newid yn y pris canolrifol a dalwyd am bob math o dŷ yn y Parc Cenedlaethol a chymaryddion.

2.6.2 Yn 2024, roedd pris cyfartalog canolrifol tŷ yn y Parc Cenedlaethol 9.28 gwaith yn uwch nag enillion blynyddol cyfartalog canolrifol cyflogeion.




**Prisiau canolrifol pob math o dŷ rhwng blynyddoedd calendr 2013 a 2024 ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, y rhan o Sir Benfro y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a Chymru gyfan. ([Ffynhonnell y data: Prisiau a Dalwyd, y Gofrestrfa Dir]())**

**Crynodeb Tai**

- Mae 9,781 o aelwydydd yn y Parc Cenedlaethol
- Mae mwyafrif y tai yn y Parc Cenedlaethol yn dai ar wahân ac yn eiddo i berchen-feddianwyr.
- Mae ail gartrefi a llety gwyliau yn broblem i'r Parc. Cenedlaethol, gyda rhai cymunedau e.e. Aber-bach ac Amroth â chyfraddau sy'n fwy na 45%.
- Mae prisiau tai yn y Parc Cenedlaethol yn gyson uwch na Sir Benfro a Chymru, gyda phris canolrifol tai yn 9.28 gwaith yr enillion blynyddol canolrifol yn Sir Benfro yn 2024.

# 3 Iechyd

3.1.1 Yn gyffredinol, mae iechyd pobl yn Sir Benfro yn debyg i iechyd Cymru gyfan.

3.1.2 Yng Nghyfrifiad 2021, dywedodd 45.7% o'r bobl sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol bod eu hiechyd yn dda iawn, sydd 0.5% yn is na'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru ac 1% yn uwch na'r ffigur ar gyfer Sir Benfro gyfan.

| Iechyd Cyffredinol | Arfordir Penfro | Sir Benfro | Cymru |
|---|---|---|---|
| Iechyd Da Iawn (%) | 45.7 | 44.7 | 46.2 |
| Iechyd Da (%) | 33.5 | 33.4 | 32.4 |
| Iechyd Gweddol (%) | 14.6 | 15.1 | 14.5 |
| Iechyd Gwael (%) | 4.8 | 5.2 | 5.3 |
| Iechyd Gwael Iawn (%) | 1.5 | 1.6 | 1.7 |

Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021 Nomis - Query Tool - TS037 - General health

3.1.3 Mae cyfran y bobl sy'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yng Nghyfrifiad 2021 yn y Parc Cenedlaethol yn is na Sir Benfro gyfan a Chymru gyfan. Fodd bynnag, nodir bod gan y Parc Cenedlaethol gyfran uwch o breswylwyr sydd â chyflwr hirdymor nad yw'n effeithio arnynt o ddydd i ddydd na Sir Benfro a Chymru.

| Anabledd | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (%) | Sir Benfro (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|
| Yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb | 21.0 | 22.0 | 21.6 |
| Yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Gweithgareddau pob dydd wedi'u cyfyngu'n fawr | 9.2 | 10.2 | 10.3 |
| Yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Gweithgareddau pob dydd wedi'u cyfyngu ychydig | 11.8 | 11.9 | 11.3 |
| Ddim yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb | 79.0 | 78.0 | 78.4 |
| Ddim yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Â chyflwr iechyd meddwl neu iechyd corfforol hirdymor ond ni chyfyngir ar weithgareddau pob dydd | 7.3 | 6.6 | 6.6 |
| Ddim yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Dim cyflyrau iechyd meddwl nac iechyd corfforol hirdymor | 71.7 | 71.4 | 71.8 |

Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021 Nomis - Query Tool - TS038 - Disability

| Mesur | Sir Benfro (%) | Cyfartaledd Cymru (%) |
|---|---|---|
| **Oedolion gordew** | **25** | **25** |
| **Plant gordew (4-5 oed)** | **10.9** | **11.4** |
| **Oedolion gordew neu dros bwysau** | **57** | **62** |
| **Plant gordew neu dros bwysau (4-5 oed)** | **27.9** | **24.8** |

| | | |
|---|---|---|
| **Oedolion sy'n bodloni canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ar weithgarwch corfforol** | **18.8** | **18.3** |
| **Plant (11-16) sy'n bodloni canllawiau'r Prif Swyddog Gweithredol ar weithgarwch corfforol** | **50** | **46.5** |
| **Oedolion sy'n bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau a/neu lysiau y dydd** | **25.6** | **28.5** |
| **Pobl ifanc (11-16) sy'n bwyta o leiaf 1 dogn o ffrwythau neu lysiau** | **50** | **46.5** |
| **Smygwyr presennol (Oedolion)** | **12** | **13** |
| **Yfed mwy na'r canllawiau sy'n cael eu hargymell (Oedolion)** | **21** | **16** |

3.1.4 Un o rolau pwysig Parciau Cenedlaethol yw cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn hamdden ac ymarfer corff yn yr awyr agored, ac o ganlyniad i hyn gall Parciau Cenedlaethol wneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd. Mae'r llenyddiaeth[3] yn awgrymu bod amlygiad i'r amgylchedd naturiol yn gallu bod yn llesol i iechyd pobl mewn 5 prif ffordd. Y rhain yw:

- Gwella sgiliau personol a chyfathrebu cymdeithasol.
- Gwella iechyd corfforol.
- Gwella iechyd meddwl ac ysbrydol.
- Gwella ymwybyddiaeth ysbrydol, synhwyraidd, ac esthetig.
- Y gallu i gael rheolaeth bersonol a mwy o sensitifrwydd tuag at lesiant yr hunan.

**Crynodeb Iechyd**

- **Nododd 45.7% o breswylwyr y Parc Cenedlaethol fod ganddynt "Iechyd da iawn" yng Nghyfrifiad 2021, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (46.2%) ac ychydig yn uwch na. chyfartaledd Sir Benfro (44.7%). Mae preswylwyr sy'n nodi iechyd "gwael" neu "gwael iawn" ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.**
- **Yng Nghyfrifiad 2021, roedd 21% o breswylwyr y Parc Cenedlaethol yn anabl – is na Sir Benfro (22%) a Chymru (21.6%).**
- **Mae cyfraddau plant gordew neu dros bwysau rhwng 4 a 5 oed yn Sir Benfro yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.**
- **Mae'r defnydd o alcohol ymhlith oedolion yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar y pryd.**

[3] Adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd ar gyfer OPENspace: the research centre for inclusive access to outdoor environments. Morris N. (2003) Health, Well-Being and Open Space Literature Review (ar gael yn [Open Space: Morris, N. (2003) Health, Well-Being and Open Space Literature Review](), cyrchwyd 16 Chwefror 2007)

# 4 Incwm a Chyflogaeth

| Blwyddyn | Sir Benfro | Sir Gaerfyrddin | Ceredigion | Cymru | Cymru a Lloegr |
|---|---|---|---|---|---|
| 2012 | 21911 | 23712 | 21354 | 23918 | 26643 |
| 2013 | 23208 | 25045 | 22822 | 24427 | 27189 |
| 2014 | 23141 | 26015 | 21698 | 24848 | 27346 |
| 2015 | 23220 | 24354 | 21937 | 25254 | 27693 |
| 2016 | 23184 | 24551 | 23074 | 25755 | 28340 |
| 2017 | 24210 | 26641 | 23120 | 26339 | 28953 |
| 2018 | 24992 | 26098 | 24772 | 27043 | 29684 |
| 2019 | 24134 | 27133 | 25455 | 27858 | 30537 |
| 2020 | 27934 | 29356 | 26223 | 28530 | 31600 |
| 2021 | 29562 | 29795 | 27919 | 28886 | 31319 |
| 2022 | * | 32177 | 29119 | 30846 | 33135 |
| 2023 | 32036 | 34067 | 32270 | 32963 | 35046 |
| 2024 | 33401 | 36302 | 34828 | 34915 | 37474 |

**Enillion blynyddol gros canolrifol gweithwyr llawn amser yn ôl preswylfa (NOMIS 2023)**



Enillion blynyddol gros canolrifol gweithwyr llawn amser yn ôl preswylfa (NOMIS 2023)
36,000
34,000
32,000
30,000
28,000
26,000
24,000
22,000
20,000
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023

4.1.1 Ar y cyfan mae gweithwyr llawn amser yn Sir Benfro yn ennill llai nag enillion cyfartalog gweithwyr llawn amser yng Nghymru a Chymru a Lloegr.

## 4.2 Cyfraddau diweithdra

4.2.1 Mae'r graff isod yn dangos cyfran yr unigolion o oedran gweithio yn Sir Benfro sy'n economaidd weithgar ac sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra. Hyd at 2020, mae'r data'n dangos gostyngiad graddol yn nifer yr hawlwyr. Fodd bynnag, bu cynnydd sydyn yn 2020, yn fwyaf tebygol oherwydd effaith pandemig COVID-19. Er bod cyfraddau hawlwyr wedi gostwng ers hynny i tua 4%, maent yn parhau i fod yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

4.2.2 Mae natur dymhorol diwydiant twristiaeth Sir Benfro hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y data, gyda gostyngiadau amlwg mewn cyfraddau hawlwyr yn ystod misoedd brig yr haf, yn enwedig ym mis Gorffennaf.




**Ffynhonnell y data: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Nomis)**

## 4.3 Cyfraddau cyflogaeth

Er bod cyfraddau diweithdra'n gostwng ac yn ffafriol o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU, mae'r cyfraddau cyflogaeth hefyd yn isel mewn rhai ardaloedd o fewn ac yng nghyffiniau'r Parc Cenedlaethol. Roedd nifer y swyddi i bob preswylydd mewn oedran gweithio yn 0.79 ar gyfer y DU gyfan yn 2013. Mae Ardal Teithio i'r Gwaith Hwlffordd[4] (TTWA) yn cymharu'n ffafriol â hyn gyda 0.82 o swyddi i bob preswylydd, ond nid oedd TTWAau eraill yn y Parc Cenedlaethol yn gwneud cystal - 0.71 ar gyfer Aberteifi, 0.7 ar gyfer Penfro a Dinbych-y-pysgod, a 0.63 ar gyfer Abergwaun a Thyddewi. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried a oes angen newid Ardaloedd Teithio i'r Gwaith 2011 gan ddefnyddio Cyfrifiad 2021

[4] Mae Ardaloedd Teithio i'r Gwaith yn amcanion i farchnadoedd llafur hunangynhwysol sy'n seiliedig ar batrymau cymudo i'r gwaith.



DRAFT

## 4.4 Diwydiannau cyflogaeth

4.4.1 Mae'r tabl canlynol yn dangos canran y bobl 16-74 oed sy'n cael eu cyflogi ym mhob diwydiant cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol gyda ffigurau ar gyfer Sir Benfro yn gyffredinol a Chymru fel cymhariaeth.

| Diwydiant | Cyfrifiad PCAP 2021 | Sir Benfro 2021 | Cymru 2021 |
|---|---|---|---|
| A, B, D, E Amaethyddiaeth, ynni a dŵr | 8.6 | 7.4 | 3.7 |
| C Gweithgynhyrchu | 4.7 | 5.9 | 8.7 |
| F Adeiladu | 9.8 | 10.4 | 8.6 |
| G Masnach cyfanwerthu a manwerthu, atgyfeirio cerbydau modur a beiciau modur | 12.4 | 14.7 | 14.5 |
| H Trafnidiaeth a storio | 2.5 | 3.6 | 3.8 |
| I Llety a gweithgarwch gwasanaethau bwyd | 13.2 | 8.6 | 5.2 |
| J Gwybodaeth a chyfathrebu | 1.7 | 1.6 | 2.7 |
| K Gweithgarwch ariannol ac yswiriant | 1.1 | 1 | 2.9 |
| L Gweithgarwch eiddo tirol | 1.2 | 1 | 1.3 |
| M Gweithgarwch proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 5 | 4 | 4.4 |
| N Gweithgarwch gwasanaethau gweinyddol a chymorth | 5.6 | 4.5 | 4.2 |
| O Gweinyddu cyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 6.4 | 7.8 | 9.2 |
| P Addysg | 8.1 | 8 | 9.6 |
| Q Gweithgarwch iechyd pobl a gwaith cymdeithasol | 13.8 | 16.5 | 17 |

DRAFT

| Diwydiant | Cyfrifiad PCAP 2021 | Sir Benfro 2021 | Cymru 2021 |
|---|---|---|---|
| R, S, T, U Arall | 5.9 | 4.9 | 4.2 |

**Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021**

DRAFT

## 4.5 Tlodi yn ystod Plentyndod




Child poverty in your area 2014/15 – 2019/20 - End Child Poverty

**Crynodeb Incwm a Chyflogaeth**

- Mae traean o blant Sir Benfro yn byw mewn tlodi.
- Mae enillion blynyddol gros canolrifol gweithwyr llawn amser yn Sir Benfro wedi bod yn gyson is na chyfartaleddau Cymru a'r DU.
- Cododd cyfraddau hawlwyr budd-dal diweithdra yn sydyn yn 2020 oherwydd pandemig COVID-19. Ers hynny, mae cyfraddau wedi gostwng i tua 4%, ond maent yn parhau i fod yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.
- Mae twristiaeth dymhorol yn achosi gostyngiadau amlwg mewn diweithdra yn ystod misoedd yr haf.
- Y sectorau cyflogaeth allweddol i breswylwyr y Parc Cenedlaethol yw llety a gwasanaethau bwyd, iechyd pobl a gwaith cymdeithasol, cyfanwerthu a manwerthu, adeiladu ac amaethyddiaeth, ynni a dŵr.
- Mae'r gyfradd hunangyflogaeth yn Sir Benfro yn uchel ar 19.47% o'i gymharu â 10.61% yng Nghymru.
- Mae'r mwyafrif o fusnesau yn Sir Benfro yn rhai "maint micro" (0-9 o weithwyr).

DRAFT

# 5 Yr Economi

## 5.1 Busnes

5.1.1 Mae gan Sir Benfro gyfradd uchel o hunangyflogaeth, 19.47%[5], o'i gymharu â Chymru (10.61%).

5.1.2 O'i gymharu â Chymru gyfan, mae busnesau yn Sir Benfro yn dueddol o fod yn fychan iawn, fel y gwelir yn y gyfran gymharol uchel o fusnesau yn Sir Benfro sy'n gweithredu gyda llai na deg o gyflogeion rhwng eu holl weithrediadau.

| ***Band Maint Cyflogaeth*** | ***Sir Benfro (%)*** | ***Cymru (%)*** |
|---|---|---|
| *Micro (0-9)* | 89.79% | 89.32% |
| *Bach (10-49)* | 9.00% | 8.88% |
| *Canolig (50-249)* | 1.12% | 1.48% |
| *Mawr (250+)* | 0.09% | 0.32% |

UK Business Counts - local units by industry and employment size band (ONS 2023)

[5] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ôl rhyw ac awdurdod lleol yng Nghymru | StatsCymru



DRAFT

## 5.2 Amaethyddiaeth

5.2.1 Mae gostyngiad graddol yn nifer y busnesau sy’n ymwneud ag Amaethyddiaeth, Coedwigaeth neu Bysgodfeydd. Mae’r graff isod yn dangos nifer y mentrau Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgodfeydd yn Sir Benfro rhwng 2010 a 2024.




**Ffynhonnell y data:** [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Nomis)]

DRAFT

5.2.2 Yn wahanol i 2001 and 2011, ni chafodd data ar gyfer Cyfrifiad 1991 eu cyhoeddi ar gyfer ardaloedd Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r tabl canlynol yn dangos y niferoedd a oedd wedi'u cyflogi mewn amaethyddiaeth yn 1991, 2001 and 2011 yn Sir Benfro, a Wardiau dethol (yn gyfan gwbl neu yn bennaf o fewn y Parc Cenedlaethol) gyda ffiniau cyson yn 1991 a 2001. Noder fod y data ar gyfer 1991 yn seiliedig ar sampl o 10% o ffurflenni Cyfrifiad, felly bydd ffin cyfeiliornad sylweddol yn achos y ffigurau ar gyfer wardiau (10 i 14%)

**Canran y gweithlu wedi'u cyflogi mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota**

| Ardal | 1991 | 2001 | 2011 | 2021 |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 3.45 | 2.49 | 1.7 | 1.8 |
| Sir Benfro | 9.44 | 6.83 | 4.7 | 5.3 |
| Trefdraeth | 12.5 | 6.67 | 5.24 | TBC |
| Dinas | 38.36 | 20.83 | 14.65 | TBC |
| Tyddewi | 18.67 | 9.59 | 6.31 | TBC |
| Yr Aberoedd | 14.29 | 9.7 | 8.53 | TBC |
| Llanisan-yn-Rhos | 16.13 | 10.48 | 7.75 | TBC |
| Amroth | 12.2 | 5.05 | 5.06 | Data i ddod |

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau 1991, 2001 a 2011**

## 5.3 Twristiaeth

5.3.1 Mae'r Adroddiad STEAM ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro am 2021 yn rhoi trosolwg o effaith economaidd twristiaeth ar y Parc Cenedlaethol. Dangosir prif ffigurau'r adroddiad isod.

- Cafodd y Parc Cenedlaethol 2.35 miliwn o Ymweliadau Twristiaeth yn ystod 2021
- Roedd ymwelwyr a arhosodd dros nos o fewn ffiniau'r Parc fel rhan o wyliau neu egwyl fer yn cyfrif am 1.2 miliwn o ymweliadau a 6.5 miliwn o nosweithiau mewn llety lleol. Cyfrannodd ymwelwyr a oedd yn aros o fewn Ardal Ddylanwad ehangach y Parc at 3.3 miliwn o nosweithiau ychwanegol o 567 mil o ymweliadau.
- Cynhyrchwyd 7.7 miliwn o Ddyddiau Ymwelwyr gan ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2021
- Cynhyrchwyd cyfanswm o £435 miliwn o fewn ffiniau'r parc gan wariant ymwelwyr a busnesau twristiaeth. Daeth £172 miliwn arall o'r Ardal Ddylanwad.

- Cyfrannodd Ymweliadau Diwrnod £43 miliwn at yr economi leol yn 2021.
- Niferoedd Ymwelwyr +66% rhwng 2020 a 2021.
- Roedd ymwelwyr â'r Parc ac IA wedi chwarae rôl hanfodol drwy gynnal 9,600 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.
- Gyda'i gilydd, roedd ymwelwyr a arhosodd o fewn ffiniau'r Parc wedi cynhyrchu effaith economaidd gwerth £392 miliwn.
- Gwariodd ymwelwyr a oedd yn aros yn y Parc £129 miliwn ar lety gan aros am gyfartaledd o 5.6 noson.
- Effaith Economaidd +95% rhwng 2020 a 2021.
- Cyfanswm Dyddiau Ymwelwyr yn y Parc +102% rhwng 2020 a 2021.

## 5.4 Hamdden

5.4.1 Dangosodd Arolwg Twristiaeth Sir Benfro 2012 mai cerdded yw'r gweithgarwch hamdden mwyaf cyffredin ymhlith ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol, sy'n cynnwys tua 70% o'r ymwelwyr. Dangosir gweithgareddau poblogaidd eraill yn y siart isod.




**Ffynhonnell: Arolwg Ymwelwyr Sir Benfro 2012**

Y prif adnodd ar gyfer cerdded er mwyn hamdden yw'r rhwydwaith Hawliau Tramwy cyhoeddus a Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r Llwybr Cenedlaethol yn ymestyn am 316km o amgylch arfordir Sir Benfro. Mae natur

gweddill y rhwydwaith Hawliau Tramwy yn y Parc Cenedlaethol wedi grynhoi yn y tabl canlynol.

| Rhwydwaith Hawliau Tramwy | Cilometrau ar agor | Cilometrau mewn defnydd | % yn agored |
|---|---:|---:|---:|
| **Llwybrau troed** | 583.68 | 439.46 | 67.1% |
| **Llwybrau ceffylau** | 177.85 | 165.53 | 93.00% |
| **Cilffyrdd sy'n agored i bawb** | 7.23 | 7.23 | 100.00% |
| **Cilffordd Cyfyngedig** | 1.1 | 1.1 | 100% |
| **Cyfanswm** | 769.86 | 613.32 | 79.67% |

**Ffynhonnell:** Tîm ROW PCAPA (Awst 2017)

Mae tua 6616 hectar o Dir Mynediad yn y Parc Cenedlaethol, y rhan fwyaf ohono yn y gogledd. Dangosir y Tir Mynediad yn Sir Benfro ar y map canlynol.



*

5.4.2 Dangosir tarddiad ymwelwyr â Sir Benfro fel y'i pennwyd gan Arolwg Twristiaeth Sir Benfro yn y siart canlynol. Dangosir grŵp galwedigaeth[6] (cyfeirir ato weithiau fel dosbarthiad economaidd-gymdeithasol) yr ymwelwyr yn y siart isod. Rhwng arolygon 2004 a 2011 gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghyfran yr ymwelwyr o Gymru, ynghyd â gostyngiad bychan yn y blynyddoedd ers 2004 mewn ymwelwyr o Lundain. Mae'n bosibl y gellir priodoli'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o weddill Cymru i'r sefyllfa economaidd.




**Ffynhonnell: Arolwg Ymwelwyr Sir Benfro (2004 – 2011)**

[6] Am ragor o fanylion am y grwpiau hyn, gweler ['Occupation Groups' taken from Occupation Groupings:A Job Dictionary, 6ed argraffiad, 2006.]




**Cyfran yr ymwelwyr yn ôl grŵp galwedigaeth**

**Ffynhonnell: Arolwg Ymwelwyr Sir Benfro 2011**

5.4.3 Fel yn achos twristiaeth mae angen gwybodaeth fwy manwl am y defnydd a wneir o'r Parc Cenedlaethol i ddibenion hamdden, yn enwedig y niferoedd absoliwt sy'n cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a'u heffaith ar yr amgylchedd, preswylwyr ac eraill sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol.

5.4.4 Yn ychwanegol at swyddogaethau hamdden yr ardal sy'n gysylltiedig â'i ddynodiad fel Parc Cenedlaethol, mae gofyniad hefyd i ddarparu cyfleusterau hamdden i breswylwyr. Cafodd Asesiad Mannau Agored ei gynnal fel rhan o broses y CDLl yn unol â TAN 16 – Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored. Mae manylion am yr asesiad hwn wedi'u cynnwys ym Mhapurau Cefndir y Cynllun Datblygu Lleol, "Asesiad Mannau Agored" a "Methodoleg yr Asesiad Mannau Agored".

## 5.5 Addysg a Sgiliau

5.5.1 Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl 16-74 oed yn y Parc Cenedlaethol gyda chymwysterau ar wahanol lefelau[7], gyda'r canrannau ar gyfer Sir Benfro a Chymru er mwyn cymharu.

| Cyfrifiad | Dim cymwysterau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4/5 | Cymwysterau / lefelau eraill yn anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **PCAP (Cyfrifiad 2011)** | 21.4 | 12.2 | 16.4 | 10.8 | 30.9 | 4.2 |
| **PCAP (Cyfrifiad 2021)** | 17.3 | 7.8 | 13.8 | 16.0 | 36.8 | 8.2 |
| **Sir Benfro (Cyfrifiad 2011)** | 24.6 | 13.6 | 16.8 | 11.8 | 24.8 | 8.45 |
| **Sir Benfro (Cyfrifiad 2021)** | 18.8 | 9.1 | 15.1 | 17.0 | 31.2 | 8.7 |
| **Cymru (Cyfrifiad 2011)** | 25.9 | 13.3 | 15.7 | 12.3 | 24.5 | 4.3 |
| **Cymru (Cyfrifiad 2021)** | 19.9 | 8.7 | 14.4 | 17.2 | 31.5 | 8.3 |

**Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021 a 2011**

7

**Lefel 1:** Lefel 1: Pasio 1+ lefel 'O', 1+ CSE/TGAU (unrhyw radd), lefel 1 NVQ, GNVQ Sylfaen.
**Lefel 2:** Lefel 2: Pasio 5+ lefel 'O', 5+ CSE (graddau 1), 5+ TGAU (graddau A-C), Tystysgrif Ysgol, 1+ lefelau 'A' /'AS', lefel 2 NVQ 2, GNVQ Canolradd.
**Lefel 3:** Lefel 3: 2+ lefel 'A', 4+ lefel 'AS', Tystysgrif Ysgol Uwch, lefel 3 NVQ 3, GNVQ Uwch.
**Lefel 4/5:** Gradd gyntaf, Gradd uwch, lefelau 4 a 5 NVQ, HNC, HND, Statws Athro Cymwysedig, Meddyg Meddygol Cymwysedig, Deintydd Cymwysedig, Nyrs Gymwysedig, Bydwraig, Ymwelydd Iechyd.

## 5.6 Mynediad at wasanaethau

5.6.1 Mae'r rhan fwyaf o'r Wardiau Cyngor Sir yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu cyfrif ymhlith y 10% o'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y parth Mynediad at Wasanaethau ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) 2019. Yr eithriadau oedd Tyddewi, Trefdraeth a'r ardal yng nghyffiniau Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot. Mae parth Mynediad at Wasanaethau'r MALIIC yn ystyried mynediad at: siop fwyd; meddygfa meddyg teulu; ysgol gynradd; swyddfa bost; llyfrgell gyhoeddus; canolfan hamdden; deintydd y GIG; ac ysgol uwchradd.




Contains public sector information licensed under the Open Government Licence v3.0

## 5.7 Band Eang

Yn 2024, mae gan 94.02% o breswylwyr Sir Benfro fynediad at fand eang "cyflym iawn" (30mbps neu fwy), gyda dros 57% o drigolion yn gallu cael mynediad at gyflymderau sy'n gallu trosglwyddo data ar gyfradd gigabeit (1000 Mbps)[8].

DRAFT

[8] https://www.sir-benfro.gov.uk/gwell-band-eang

# 6 Nodweddion cymunedol / diwylliannol unigryw

## 6.1 Y Gymraeg

6.1.1 Mae'r tabl isod yn dangos cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol ac yn Sir Benfro yng Nghyfrifiadau 2001, 2011 a 2021.

| Ardal | Siaradwyr Cymraeg Cyfrifiad 2001 (%) | Siaradwyr Cymraeg Cyfrifiad 2011 (%) | Siaradwyr Cymraeg Cyfrifiad 2021 (%) |
|---|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 23.3 | 21.5 (-1.8%) | 19.4% (-2.1%) |
| Sir Benfro | 21.5 | 18.4 (-3.1%) | 20.7 (+2.3%) |

Ffynhonnell: ONS (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Sgiliau Cymraeg (siarad), Cymru: Cyfrifiad 2021)

6.1.2 Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol rannau o'r sir. Mae'r tabl a'r map isod yn rhoi'r ffigurau ac yn dangos cyfran y bobl a allai siarad Cymraeg ar adeg Cyfrifiad 2021 yn ôl Ardaloedd Cynghorau Cymuned.

| Cymuned | Cyfanswm: Pob preswylydd arferol 3 oed a hŷn | Yn methu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg (%) |
|---|---|---|---|---|
| Treamlod | 402 | 288 | 114 | 28.36 |
| Amroth | 1216 | 1095 | 121 | 9.95 |
| Angle | 350 | 320 | 30 | 8.57 |
| Boncath | 760 | 355 | 405 | 53.29 |



DRAFT

| Cymuned | Cyfanswm: Pob preswylydd arferol 3 oed a hŷn | Yn methu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg (%) |
|---|---|---|---|---|
| Breudeth | 900 | 709 | 191 | 21.22 |
| Burton | 1267 | 1130 | 137 | 10.81 |
| Camros | 1747 | 1488 | 259 | 14.83 |
| Caeriw | 1475 | 1312 | 163 | 11.05 |
| Cilgerran | 1509 | 798 | 711 | 47.12 |
| Clynderwen | 896 | 527 | 369 | 41.18 |
| Clydau | 703 | 375 | 328 | 46.66 |
| Cosheston | 815 | 744 | 71 | 8.71 |
| Crymych | 1713 | 702 | 1011 | 59.02 |
| Cwm Gwaun | 305 | 137 | 168 | 55.08 |
| Dale | 188 | 170 | 18 | 9.57 |
| Dinas | 754 | 428 | 326 | 43.24 |
| East Williamston | 1860 | 1641 | 219 | 11.77 |
| Eglwyswrw | 763 | 344 | 419 | 54.91 |
| Abergwaun ac Wdig | 5326 | 3785 | 1541 | 28.93 |
| Freystrop | 526 | 462 | 64 | 12.17 |
| Hwlffordd | 11742 | 10284 | 1458 | 12.42 |
| Cas-lai | 447 | 312 | 135 | 30.2 |
| Herbrandston | 410 | 359 | 51 | 12.44 |
| Hook | 933 | 824 | 109 | 11.68 |
| Hundleton | 793 | 726 | 67 | 8.45 |

DRAFT

| Cymuned | Cyfanswm: Pob preswylydd arferol 3 oed a hŷn | Yn methu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg (%) |
|---|---|---|---|---|
| Jeffreyston | 558 | 488 | 70 | 12.54 |
| Johnston | 2148 | 1935 | 213 | 9.92 |
| Cilgeti/Begeli | 2206 | 1969 | 237 | 10.74 |
| Llanbedr Felffre | 1115 | 926 | 189 | 16.95 |
| Llandyfái | 877 | 788 | 89 | 10.15 |
| Treletert | 1217 | 807 | 410 | 33.69 |
| Llanddewi Felffre | 383 | 282 | 101 | 26.37 |
| Gorllewin Llandysilio | 478 | 225 | 253 | 52.93 |
| Llangwm | 803 | 724 | 79 | 9.84 |
| Llanrhian | 884 | 533 | 351 | 39.71 |
| Llanstadwell | 785 | 710 | 75 | 9.55 |
| Llanhuadain | 613 | 484 | 129 | 21.04 |
| Maenclochog | 730 | 360 | 370 | 50.68 |
| Maenorbŷr | 1243 | 1109 | 134 | 10.78 |
| Maenordeifi | 540 | 294 | 246 | 45.56 |
| Marloes a Sain Ffraid | 307 | 258 | 49 | 15.96 |
| Martletwy | 576 | 496 | 80 | 13.89 |
| Mathri | 491 | 334 | 157 | 31.98 |
| Merlin's Bridge | 2152 | 1896 | 256 | 11.9 |
| Aberdaugleddau | 14329 | 13195 | 1134 | 7.91 |
| Mynachlog-ddu | 505 | 335 | 170 | 33.66 |

DRAFT

| Cymuned | Cyfanswm: Pob preswylydd arferol 3 oed a hŷn | Yn methu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg (%) |
|---|---|---|---|---|
| Arberth | 2952 | 2328 | 624 | 21.14 |
| Nanhyfer | 854 | 489 | 365 | 42.74 |
| Y Mot | 417 | 281 | 136 | 32.61 |
| Trefdraeth | 1027 | 609 | 418 | 40.7 |
| Neyland | 3232 | 3012 | 220 | 6.81 |
| Nolton a'r Garn | 807 | 700 | 107 | 13.26 |
| Penfro | 7742 | 7109 | 633 | 8.18 |
| Doc Penfro | 9344 | 8638 | 706 | 7.56 |
| Penalun | 803 | 687 | 116 | 14.45 |
| Pencaer | 422 | 276 | 146 | 34.6 |
| Cas-mael | 521 | 272 | 249 | 47.79 |
| Rosemarket | 555 | 502 | 53 | 9.55 |
| Rudbaxton | 1135 | 950 | 185 | 16.3 |
| Saundersfoot | 2313 | 2075 | 238 | 10.29 |
| Scleddau | 1044 | 747 | 297 | 28.45 |
| Solfach | 789 | 627 | 162 | 20.53 |
| Spittal | 480 | 404 | 76 | 15.83 |
| Tyddewi | 1739 | 1314 | 425 | 24.44 |
| Llandudoch | 1205 | 705 | 500 | 41.49 |
| St Florence | 908 | 819 | 89 | 9.8 |
| Llanisan-yn-Rhos | 446 | 403 | 43 | 9.64 |

DRAFT

| Cymuned | Cyfanswm: Pob preswylydd arferol 3 oed a hŷn | Yn methu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg (%) |
|---|---|---|---|---|
| St Mary Out Liberty | 780 | 675 | 105 | 13.46 |
| Ystagbwll a Chastellmartin | 548 | 491 | 57 | 10.4 |
| Templeton | 1038 | 881 | 157 | 15.13 |
| Yr Aberoedd | 1102 | 969 | 133 | 12.07 |
| Tiers Cross | 543 | 461 | 82 | 15.1 |
| Uzmaston, Boulston a Slebets | 676 | 553 | 123 | 18.2 |
| Castell Walwyn | 301 | 271 | 30 | 9.97 |
| Wiston | 1096 | 858 | 238 | 21.72 |
| Cas-blaidd | 637 | 450 | 187 | 29.36 |
| Dinbych-y-pysgod | 3996 | 3547 | 449 | 11.24 |

DRAFT




DRAFT

## 6.2 Tafodiaith Gymraeg (Sir Benfro)

6.2.1 Mae rhannau o Sir Benfro yn cael eu hadnabod fel tir "Wês, wês" oherwydd y dafodiaith Gymraeg sy'n cael ei siarad yn yr ardaloedd hyn. Un o brif nodweddion Cymraeg Sir Benfro yw bod y sillaf 'oe' yn cael ei ynganu fel 'ŵe' neu 'wê'' mewn sillafau sengl yn y dafodiaith. Felly mae 'oes' yn troi'n 'wês' (yes), 'oer' yn troi'n 'wer' (cold) 'ddoe' yn troi'n 'dŵe' (yesterday) ac mae 'coed' yn troi'n 'cwêd' (trees).

6.2.2 Mae geiriau eraill a geir yn nhafodiaith Sir Benfro yn cynnwys 'perci' ar gyfer 'caeau' (fields), 'cered' ar gyfer 'cerdded' (walk), 'tewi' ar gyfer 'tywydd' (weather) a 'wsnoth' ar gyfer 'wythnos' (week)[1].

6.2.3 Gellir clywed tafodiaith Gymraeg benodol Sir Benfro yn ardal ogleddol y Parc Cenedlaethol.

## 6.3 Tafodiaith De Sir Benfro

6.3.1 Mae tafodiaith De Sir Benfro yn cael ei hadlewyrchu'n fawr gan anheddiad Eingl-Normanaidd yr ardal pan gafodd yr iaith Gymraeg ei disodli'n gynyddol gan y Saesneg a siaredir gan ymsefydlwyr o Dde-orllewin Lloegr. Anogwyd llawer o fasnachwyr Ffleminaidd i ymgartrefu yma

[1] Rhint y Gelaets a'r Grug, Tafodiaith Sir Benfro, Wyn Owens, Y Lolfa, 2013

yn nechrau'r ddeuddegfed ganrif, gyda Fflemineg yn dal i gael ei siarad ryw bedair canrif yn ddiweddarach.

6.3.2 Mae'r rhan ganolraddol hanesyddol rhwng y 'Saesneg' a'r 'Gymraeg' (wedi'i labelu'n ddiweddarach yn 'Landsker') yn dal i fod yn amlwg yn ieithyddol. Fodd bynnag, mae 'Landsker' yn debygol o ddod yn llai amlwg dros amser wrth i siaradwyr Cymraeg ddatblygu ar draws Sir Benfro, gyda chefnogaeth cyfleoedd addysg Gymraeg.

6.3.3 Mae llawer o'r geiriau sy'n cael eu defnyddio'n aml yn yr ardal yn deillio o'r ymsefydlwyr o orllewin Lloegr – geiriau fel *culm* (glo bach), *drang* (llwybr cul), lake (yn ddryslyd, afon) ac *evil* (fforch gwellt). Mae gan rai geiriau darddiad Ffleminaidd fel 'slop' (bwlch mewn gwrych) a *hadridge* (mwstard gwyllt).

6.3.4 Mae llawer o enwau lleoedd yn bodoli o'r cyfnod hwn, er enghraifft mae'r ôl-ddodiad 'ton' yn nodweddiadol o'r drefn Seisnig. Mae goroesiad llawer o enwau lleoedd Cymreig ar draws yr ardal, megis Pwllcrochan a Rhoscrowther, yn awgrymu bod pocedi o'r Gymraeg hefyd yn parhau i ffynnu. Mae'n anochel bod rhai enwau lleoedd hŷn wedi newid - Merthyr Tywai yn troi'n Martletwy er enghraifft.

6.3.5 Mae llawer o eiriau tafodieithol hyfryd yn dal i gael eu defnyddio heddiw. Mae 'Why aye' a 'Why no' yn dal yn gyffredin, 'in a caffle' neu 'all to clush', 'cift (wedi drysu), 'kift' (lletchwith), 'pile' (taflu), a grip (ffos), 'stumming' (poeth) neu stivvling (oer). Mae rhai geiriau ac ymadroddion hyfryd yn disgrifio nodweddion personol fel 'tamping' (blin), 'plenty of kidney' ('broliog'), 'hernie' (person slei), 'talking rammas' (adrodd straeon celwydd golau) a 'slammocky' (person blêr).

6.3.6 Mae pobl leol yn dal i ddefnyddio eu hynganiad eu hunain o enwau lleoedd. Mae'r rhan yn cynnwys 'Langum' (Llangwm), 'The Ross' (Y Rhos), 'La-hadden' (Llawhaden), 'Landewy' (Llanddewi Felffre) a Sandersfoot (Saundersfoot). Mae rhai enwau lleoedd yn cael eu tocio fel 'Harfat' (Hwlffordd), 'Tish' (St Ishmael's/Llanisan-yn-Rhos) a 'Satson' (Sageston).

6.3.7 Yn olaf, mae Dinbych-y-pysgod yn troi geiriau o gwmpas, arfer sydd bron yn angof, a cafodd hyn ei dyfeisio i ddrysu treillwyr Brixham yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y rheol yw symud llythyren gyntaf gair i'w ddiwedd ac yna ychwanegu 'a'. Felly, daw Dinbych-y-pysgod (Tenby) yn 'Enbyta'.

DRAFT

## 6.4 Dangosyddion eraill o nodweddion diwylliannol unigryw

6.4.1 Mae diwylliant yn elfen o raglen nodweddion tirwedd LandMap Cymru. Caiff yr agwedd hon ei chwblhau'n fuan a gall gynnig dangosyddion o nodweddion diwylliannol unigryw yn y Parc Cenedlaethol. Mae nodweddion diwylliannol unigryw, er eu bod y cael ei gweld fel nodwedd arbennig yn y Parc Cenedlaethol, yn debygol o fod yn anodd eu mesur.

**Crynodeb Nodweddion Cymunedol / Diwylliannol Unigryw**

- **Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol wedi gostwng rhwng cyfrifiadau, ond mae Sir Benfro gyfan wedi gweld cynnydd bach yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng cyfrifiadau.**
- **Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n sylweddol rhwng cymunedau.**
- **Mae gan Ogledd Sir Benfro dafodiaith Gymraeg unigryw, tra bod dylanwadau Eingl-Normanaidd a Fflemineg cryf ar dafodiaith De Sir Benfro.**

DRAFT

# 7 Yr amgylchedd hanesyddol

7.1.1 Mae dros 280 o Henebion Cofrestredig yn y Parc Cenedlaethol, a dros 10000 o safleoedd yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol (HER – Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed). Dangosir lleoliadau Henebion Cofrestredig yn y map canlynol.




7.1.2 Mae peth data ar gyflwr Henebion Cofrestredig yn y Parc Cenedlaethol ar gael ac fe'u darparwyd gan CADW (Medi 2021). Fodd bynnag, nid yw'r data'n gynhwysfawr, ac nid oes data ar dueddiadau ar gael ar hyn o bryd.

**Crynodeb o gyflwr Henebion Cofrestredig ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro:**

| Cyflwr Presennol | Nifer |
|---|---|
| Ffafriol | 196 |
| heb eu hasesu | 5 |
| Anffafriol | 68 |

Ffynhonnell: CADW (2021)

7.1.3 Mae 14 o Ardaloedd Cadwraeth yn y Parc Cenedlaethol, gyda Threfdraeth Parrog wedi'i ychwanegu yn 1999. Cafodd Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod ei hymestyn yn 2019. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd wedi cynhyrchu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol "Cynigion ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth" (SPG) ers mis Hydref 2022.

7.1.4 Mae cyfarwyddiadau Erthygl 4 wedi'u cymhwyso yn ardaloedd cadwraeth Aber-bach, Trefdraeth, Solfach, Tyddewi a Dinbych-y-pysgod, sy'n cyfyngu ar ddatblygiadau a ganiateir ac a fydd yn helpu i roi mwy o warchodaeth i'r ardaloedd hyn rhag yr effeithiau.

7.1.5 Mae manylion am ardaloedd Cadwraeth y Parc gan gynnwys eu maint a'u lleoliad i'w gweld yn y tabl a'r map isod.

| Anheddiad | Arwynebedd (hectar) |
|---|---|
| Angle | 166.815 |
| Caerfarchell | 9.836 |
| Cresswell Quay | 30.496 |
| Ynys Bŷr | 97.028 |
| Little Haven | 5.435 |
| Maenorbŷr | 41.266 |
| Trefdraeth a Pharrog | 33.43 |
| Portclew | 2.85 |
| Porthgain | 112.32 |

| Anheddiad | Arwynebedd (hectar) |
|---|---|
| Saundersfoot | 20.73 |
| Solfach | 62.366 |
| Tyddewi | 32.75 |
| Dinbych-y-pysgod | 120.614 |
| Trefin | 9.797 |




7.1.6 Mae dros 1200 o adeiladau rhestredig yn y Parc Cenedlaethol, ac mae 33 o’r rhain yn Radd I, a 76 yn Radd II*. Dangosir lleoliad yr adeiladau hyn ar y map canlynol. Dangosir Trefdraeth, Tyddewi a Dinbych-y-pysgod

mewn mwy o fanylder (noder: bwriadwyd i’r mapiau hyn ddangos dosbarthiad adeiladau rhestredig yn y Parc Cenedlaethol, ac nid ydynt yn dangos union leoliadau’r adeiladau).

**Adeiladau rhestredig ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro**




Data GIS Asedau Hanesyddol Dynodedig, Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru (Cadw), 2025, a drwyddedwyd o dan y Drwydded Llywodraeth Agored. Mae’n cynnwys data’r OS © Hawlfraint y Goron [a hawl cronfa ddata] 2025.



**Adeiladau rhestredig yng Nhrefdraeth**

Data GIS Asedau Hanesyddol Dynodedig, Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru (Cadw), 2025, a drwyddedwyd o dan y Drwydded Llywodraeth Agored. Mae'n cynnwys data'r OS © Hawlfraint y Goron [a hawl cronfa ddata] 2025.



**Adeiladau rhestredig yn Nhyddewi**

Data GIS Asedau Hanesyddol Dynodedig, Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru (Cadw), 2023, a drwyddedwyd o dan y Drwydded Llywodraeth Agored. Mae’n cynnwys data’r OS © Hawlfraint y Goron [a hawl cronfa ddata] 2023.



**Adeiladau rhestredig yn Nimbych-y-pysgod**

Data GIS Asedau Hanesyddol Dynodedig, Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru (Cadw), 2025, a drwyddedwyd o dan y Drwydded Llywodraeth Agored. Mae’n cynnwys data’r OS © Hawlfraint y Goron [a hawl cronfa ddata] 2025.

7.1.7 Mae 9 ardal o Dirwedd Hanesyddol sy’n gyfan gwbl neu’n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol. Y rhain yw: Mynydd Preseli; Penrhyn Dewi ac Ynys Dewi; Ynys Skomer; Dyfrffordd Aberdaugleddau; Trefdraeth a Charningli; Pen Caer; Cwningar Ysgatbwll; Dyffryn Teifi Isaf; a Maenorbŷr. Fe’u dangosir ar y mapiau canlynol. Maen nhw i’w gweld ar y mapiau canlynol:

DRAFT




## Lower Teifi Valley

The River Teifi, one of Wales's most famous rivers, flows from the Cambrian Mountains to Cardigan Bay, creating a picturesque valley. The area has been a focus for Quaternary geologists, with recent studies suggesting that sub-glacial stream channels formed the lower Teifi gorges. The river's course was shaped by glacial drift deposits, and the estuary mouth features raised beach deposits and extensive sand dunes. The area has seen significant historical development, from Bronze Age monuments to medieval settlements like St Dogmaels and Cardigan. The river played a crucial role in the area's commercial prosperity from the 17th century onwards, supporting industries like fishing, shipbuilding, and quarrying. Today, while some quarrying remains, the river and estuary are primarily used for leisure and tourism, with an increasing appreciation for their ecological value.






## Manorbier

Manorbier exhibits a rich historical continuity from pre-Norman times to the present. The landscape is characterized by long strip fields extending from The Ridgeway, an ancient route, and is believed to be remnants of a large co-axial field system. The Manor of Manorbier, held by the de Barri family, played a significant role in the region's medieval history. Population expansion in the 13th century led to the establishment of secondary settlements like Manorbier Newton and Jameston. The region's landscape, largely shaped by medieval territorial organization and land use, still retains prehistoric monuments and traces of ancient settlements. Despite changes over time, the area maintains its historical integrity and is notably associated with Gerald of Wales.






## Milford Haven Waterway

The Haven, a ria formed after the last Ice Age, extends 30km inland, dividing into the Eastern and Western Cleddau. Its landscape encapsulates maritime history from the 11th to the late 20th century, with Iron Age forts, early medieval sites, and Norman castles like Pembroke, Haverfordwest, and Carew. The construction of the Cleddau bridge ended a network of cross-Haven ferries, leading to the establishment of towns like Milford and Pembroke Dock. Changes in ship sizes and technology led to a shift in coastal trade, preserving quays, jetties, and small settlements. Medieval castles transformed into gentry residences, while ecclesiastical establishments became ruins or residences. The Palmerstonian Forts represent the most complete military and naval fortifications. The late 20th century saw the rise of the oil and power industries, leaving a legacy of jetties, oil terminals, and shore processing facilities.






## Newport and Carningli

Newport, a small medieval borough in north Pembrokeshire, is known for its well-preserved medieval topography, with elements of a medieval Marcher lordship still visible. The Anglo-Norman landscape, created by the Fitzmartin lords of Cemais, overlays an earlier Welsh landscape of dispersed settlement. The area is rich in archaeological remains, including Neolithic burial chambers and prehistoric enclosures on the slopes of Carningli. The town and castle, founded around 1197 by William Fitzmartin, have a well-documented history, with evidence of late 12th- to early 13th-century burghal houses and medieval pottery production. Despite modern developments, open plots of ground remain at the end of the town's two axial streets. The town was a trading post in the 16th century, with slate quarries and a herring fishery bringing prosperity. Today, the area is used for local fishing and leisure boating.






## Pen Gaer: Garn Fawr and Strumble Head

The north Pembrokeshire landscape, marked by a distinctive ridge on the Cardigan Bay coastline, is rich in prehistoric sites and Iron Age defended sites with exceptional evidence of associated field systems. The area, with dispersed settlements and a hamlet at Llanwnda, has a complex history evident in the palimpsest of field boundaries, tracks, and lanes. Notable features include the Neolithic chambered tomb near the farm of Llanwnwr, early Christian monuments, and dedications to local saints Gwyndaf and Degan. Despite Norman influence, the area retains its Welsh character. The inhospitable north coast is marked by Strumble Head lighthouse and Carregwastad Point, a historic landing site for the French in 1797. The archaeological potential of the area, particularly Garn Fawr and Strumble Head, is significant, with a diverse range of monument types indicating a rich chronological history.






## Preseli

The Preseli Hills, part of the Pembrokeshire Coast National Park, are a rich historical landscape with distinct blocks of interest. The central block, from Foel Eryr to Foel Drygarn, contains a wealth of prehistoric and later remains, including the source area of the Stonehenge bluestones. The open upland is home to a variety of monuments from different periods, some prominent and others less so, but all contributing to a complex prehistoric landscape. The foothills show evidence of different periods of enclosure and settlement, with some areas preserving the pattern of 19th-century Parliamentary Enclosures. Despite changes over time, the area retains its common land status, with rights actively exercised by adjacent farms. The area may have seen a post-Roman population decline and contraction of settlement, but important routes across the range remained in use. These routes, such as the Brynberian Pass and Fleming's Way, are marked by standing stones and other monuments, indicating their antiquity and the shared use of upland resources.




DRAFT




## Skomer Island

Skomer Island, separated from the mainland by a 600m rock-strewn Jack Sound, is renowned for its National Nature Reserve and Marine Nature Reserve, but its archaeological significance is equally noteworthy. The island is home to extensive remains of prehistoric fields and small settlements, with the majority of the island covered in prehistoric field boundaries, except for the center where 18th and 19th-century farming has imposed new walled fields. The island's archaeology suggests a stable population and economy, with evidence of cereal production, grazing, and use of sea and shore resources. In the Middle Ages, the island was used for rabbit farming introduced by the Normans. The island's prehistoric field systems have been the subject of recurrent attention and survey since the last War, with aerial photography adding more detail, and there is still potential for future work.






## St Davids Peninsula and Ramsey Head

The St Davids Peninsula and Ramsey Island, formed by geologically old rocks and later igneous intrusions, feature a landscape of undulating land, spectacular cliffs, and isolated rocky outcrops. The area, rich in prehistoric and early medieval relics, is culturally significant as the home of St David, the patron saint of Wales. The peninsula's northern coast is marked by unbroken cliffs, while the western side features Whitesands Bay, a historical landing and embarkation point to Ireland. Despite the challenges posed by the fierce tidal races of Ramsey Sound, Ramsey Island was a valuable part of the episcopal estate with a history of arable farming. The area's distinctive historic character is shaped by the secular and religious settlement patterns of the early medieval period, centered around the cult of St David. Despite being a remote, poor area from the early modern period onwards, St Davids has retained its significance, with the 'city', Cathedral, and surrounding area now being one of the leading tourist attractions in Wales.






## Stackpole Warren

Stackpole Warren is a distinctive landform unit with a rich archaeological history. The area is covered in calcareous blown sand, which has preserved prehistoric sites and landscapes, making it an area of exceptional archaeological significance. Excavations have revealed artifacts from the Mesolithic to the Bronze Age, including a well-preserved roundhouse at the Devil's Quoit site. The area was part of the Stackpole Estate in the medieval period, and the sand dunes led to its use as a rabbit warren. Despite changes and clearances over time, Stackpole Warren remains an area of exceptional archaeological potential, with the northern area containing the largest extent of buried prehistoric stratified archaeological deposits known from any location in South West Wales.



7.1.8 Mae 15 o Barciau a Gerddi hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol: Hen Neuadd Boulston; Colby Lodge; Neuadd Cosheston; Creseli; Lawrenni; Eglwysi Sant Brynachs; Castell Llansanffraid; Gwesty'r Warpool Court; Priordy Caldey; Trewarren; Castell Picton; Parc Slebech; Coedcanlas; a Llys Ystawg. Dangosir y rhain ar y map isod:



7.1.9 Er ei bod yn amlwg o’r wybodaeth uchod bod amgylchedd hanesyddol cyfoethog ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae angen rhagor o wybodaeth am gyflwr a rheolaeth y safleoedd. Mae’n debygol bod adnoddau hanesyddol pwysig hefyd oddi ar yr arfordir (llongddrylliadau a safleoedd cynhanes tanddwr) a byddai rhagor o wybodaeth am y rhain yn ddymunol.

**Yr Amgylchedd Hanesyddol**

- **Mae dros 280 o Henebion Rhestredig, a mwy na 10,000 o safleoedd yn yr Amgylchedd Hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol.**
- **Mae gan y Parc Cenedlaethol 14 o ardaloedd Cadwraeth, a'r mwyaf diweddar ohonynt yw Cei Cresswell, a ddynodwyd ym mis Hydref 2024.**
- **Mae 1,200 o adeiladau rhestredig yn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys 33 sydd yn radd I a 76 sydd yn radd II*.**
- **Mae 9 ardal Tirwedd Hanesyddol yn rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn y Parc Cenedlaethol.**
- **Mae gan y Parc Cenedlaethol 15 o Barciau a Gerddi Hanesyddol.**

DRAFT

# 8 Trafnidiaet

## 8.1 Perchnogaeth ceir

8.1.1 Mae gan y Parc Cenedlaethol lefelau uchel o berchnogaeth ceir preifat. Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 86.2% o aelwydydd yn berchen ar o leiaf un car neu fan, gyda dim ond 13.7% heb fod yn berchen ar gar neu fan o gwbl. Mae hyn yn wahanol i Gymru gyfan, lle nad oes gan 19.4% o aelwydydd gar neu fan o gwbl.

**Defnyddio bysiau**

| Gwasanaeth | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hwlffordd - Dale (315) | 11632 | 8770 | 501 | 2945 | 3125 | - | - |
| Gwibfws yr Arfordir: Penrhyn Angle (387/88) | 6295 | 6417 | 931 | 4745 | 5890 | - | 7696 |
| Gwibiwr Pâl: Tyddewi - Marloes (400) | 14948 | 12338 | 1255 | 7455 | 5119 | - | 8899 |
| Y Gwibiwr Celtaidd (403) | 31788 | 31975 | 3994 | 24012 | 30350 | - | 25052 |
| Gwibiwr Strwmbwl: Tyddewi – Abergwaun (404) | 12359 | 9480 | 733 | 4307 | 4135 | - | 5884 |
| Poppit Rocket: Cardigan - Trefdraeth – Abergwaun (405) | 9136 | 7127 | 1135 | 3288 | 2270 | - | - |
| Cyfanswm | 86158 | 76107 | 8549 | 46752 | 50889 | - | 47531 |

DRAFT

# 9 Llygredd

## 9.1 Llygredd aer/ansawdd aer

9.1.1 Mae nifer o fapiau a data ar allyriadau llygredd aer, gydag allyriadau wedi'u dadansoddi yn ôl sector ar gael ar wefan y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (National Atmospheric Emissions Inventory). Dangosir mapiau allyriadau ar gyfer Sir Benfro yn 2022 isod ar gyfer Ocsidau Nitrogen (NOx) a Charbon Monocsid, a map allyriadau 2022 ar gyfer deunydd gronynnol llai na 10µm.




Allyriadau carbon monocsid (2022) (t/km²)
0 -2
2 - 3
3 - 10
10 - 20
> 20
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey AC0000810561
Royal Mail (GB) data © Royal Mail copyright and database right 2024
National Statistics (GB) data © Crown copyright and database right 2024


Allyriadau PM10 (2022) (t/km²)
0 - 0.1
0.1 - 0.2
0.20 - 1.0
1.0 - 4.0
> 4.0
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey AC0000810561
Royal Mail (GB) data © Royal Mail copyright and database right 2024
National Statistics (GB) data © Crown copyright and database right 2024

Mae un orsaf monitro ansawdd aer awtomatig yn weithredol yn Sir Benfro:

> Ger Arberth ar safle gwledig ger y B4314 (cyfeirnod grid SN146127), sy’n cael ei gweithredu ar ran DEFRA ers 1997.



**Gorsaf Monitro Ansawdd Aer Awtomatig Arberth: Cyfartaleddau Blynyddol**

| Allyriadau | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NOx fel NO2 (canolrif uchafswm dyddiol µm-3) | 21 | 19 | 17 | 17 | 16 | 18 | 13 |
| Gronynnau <10µm (canolrif uchafswm dyddiol µm-3) | 28 | 44 | 62 | 41 | 60 | 39 | * |

Ffynhonnell: [Fforwm Ansawdd Aer Cymru]

9.1.2 Nid oedd modd cael gafael ar ddata i amcangyfrif ansawdd yr aer yn y Parc Cenedlaethol gan y byddai angen samplau o nifer cymharol fawr o leoliadau yn y Parc a'r cyffiniau. Mae'n fater o farn a fyddai'n ddymunol cael y data hyn, gan y byddai ei gasglu'n golygu llawer o waith, ac mae problemau ansawdd yr aer yn y Parc Cenedlaethol yn ymwneud yn fwy â rôl gweithgarwch o fewn ac yng nghyffiniau'r Parc i gyfrannu at y llygryddion (sydd wedi'u cynnwys yn y data NAEI) nag ansawdd yr aer a brofir mewn safleoedd yn y Parc Cenedlaethol.

DRAFT

## 9.2 Ansawdd dŵr

9.2.1 Mae dosbarthiad cyrff dŵr (o dan system ddosbarthu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000)) yn y Parc Cenedlaethol yn "Gymedrol" ar y cyfan, yn ôl yr asesiadau mwyaf diweddar a gynhaliwyd yn 2021.

**Cyrff Dŵr Afon:**

Mae 23 o gyrff dŵr afon wedi'u nodi yn y Parc Cenedlaethol:

| ID corff dŵr | Enw corff dŵr | Math | Statws cyffredinol (WFD) |
|---|---|---|---|
| **GB110061038330** | **Alun – blaenddyfroedd hyd at derfyn y llanw, Porth Clais** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061031160** | **Brandy Brook - blaenddyfroedd hyd at derfyn y llanw** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061038450** | **Brynberian - blaenddyfroedd at y cydlifiad gyda Nyfer** | **Afon** | **Da** |
| **GB110061025000** | **Cors Castellmartin - blaenddyfroedd hyd at derfyn y llanw** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061038560** | **Clydach - blaenddyfroedd at y cydlifiad gyda Nyfer** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061030981** | **Afon Cresswell, blaenddyfroedd hyd at derfyn y llanw** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061038290** | **Cleddau Ddu - cydlifiad gyda Wern at y cydlifiad gyda Syfynwy**** | **Afon** | **Da** |
| **GB110061030670** | **Cleddau Ddu - cydlifiad gyda Syfynwy i derfyn y llanw*** | **Afon** | **Cymedrol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **GB110061038320** | **Cleddau Ddu - y blaenddyfroedd at y cydlifiad â Wern** | **Afon** | **Da** |
| **GB110061030770** | **Llyn Ford - HW at derfyn y llanw, Wiseman's Bridge** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061038460** | **Gwaun - blaenddyfroedd hyd at derfyn y llanw** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061038610** | **Nant Duad - blaenddyfroedd at y cydlifiad gyda Nyfer** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061030660** | **Narbeth Brook - blaenddyfroedd at y cydlifiad gyda Chleddau Ddu** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061030780** | **Ffrwd New Inn - blaenddyfroedd i derfyn y llanw** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061038630** | **Nyfer – Y cydlifiad â Nant Duad i derfyn y llanw** | **Afon** | **Gwael** |
| **GB110061038510** | **Nyfer - blaenddyfroedd at y cydlifiad gyda Brynberian** | **Afon** | **Da** |
| **GB110061025150** | **Ritec - blaenddyfroedd hyd at derfyn y llanw** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061031000** | **Sandy Haven Pill** | **Afon** | **Cymedrol** |
| **GB110061038340** | **Solfach - blaenddyfroedd hyd at derfyn y llanw** | **Afon** | **Da** |
| **GB110061038300** | **Syfynwy - blaenddyfroedd i Lys-y-fran** | **Afon** | **Da** |
| **GB110061038500** | **Dienw - blaenddyfroedd i derfyn y llanw,** | **Afon** | **Da** |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Aberbach, ger Abermawr** | | |
| **GB110061038310** | **Wern - blaenddyfroedd at y cydlifiad gyda Chleddau Ddu** | **Afon** | **Gwael** |
| **GB110061030930** | **Cors Winterton - blaenddyfroedd i derfyn y llanw, Morlyn Nr Pickleridge** | **Afon** | **Cymedrol** |

Ffynhonnell y data: CNC [Dosbarthiad Cylch 3 Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) | DataMapCymru]* Hyd bach iawn yn y Parc Cenedlaethol

** Mae'n rhedeg wrth ymyl ffin y Parc Cenedlaethol, ac yn gorgyffwrdd mewn rhannau bach

I grynhoi, statws cyffredinol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer cyrff dŵr afon yn y Parc Cenedlaethol yw:

2 - Gwael

14 - Cymedrol

7 – Da

DRAFT

**Cyrff Dŵr Trosiannol**

| **ID corff dŵr** | **Enw corff dŵr** | **Math** | **Statws cyffredinol (WFD)** |
|---|---|---|---|
| **GB521006110500** | **Aber Gwaun** | **Trosiannol** | **Cymedrol** |
| **GB521006109400** | **Aber Solfach** | **Trosiannol** | **Cymedrol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **GB531006114100** | **Aberdaugleddau - Mewnol** | **Trosiannol** | **Cymedrol** |
| **GB511006206900** | **Aber Teifi** | **Trosiannol** | **Cymedrol** |
| **GB511006115200** | **Aber Nyfer** | **Trosiannol** | **Cymedrol** |

Ffynhonnell y data: CNC Dosbarthiad Cylch 3 Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) | DataMapCymru

**Cyrff Dŵr Daear**

| ID corff dŵr | Enw corff dŵr | Math | Statws cyffredinol (WFD) |
|---|---|---|---|
| **GB41002G200400** | **Cleddau a Sir Benfro** | **Dŵr daear** | **Gwael** |
| **GB41002G206000** | **Calchfaen Carbonifferaidd Sir Benfro** | **Dŵr daear** | **Da** |

Ffynhonnell y data: CNC Dosbarthiad Cylch 3 Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) | DataMapCymru

Mae dau gorff dŵr daear arall yn croestorri â ffin y Parc Cenedlaethol ond mae'r ardaloedd hyn yn fach iawn, ac mae dylanwad gweithgareddau yn y Parc Cenedlaethol yn debygol o fod yn sylweddol.

DRAFT

## 9.3 Adnoddau dŵr

9.3.1 Mae argaeledd dŵr ar gyfer trwyddedu wedi'i nodi yn Strategaethau Trwyddedu Tynnu Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r rhain yn rhoi trosolwg o ble a faint o ddŵr sydd ar gael ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr newydd, gan ystyried y tynnu presennol a'r gofynion amgylcheddol.

9.3.2 Mae llif afonydd yn newid yn naturiol drwy gydol y flwyddyn, a'r amcan yw diogelu amrywioldeb llif. Mae argaeledd adnoddau yn cael ei gyfrifo ar bedwar llif gwahanol, Q95 (llif isaf), Q70, Q50 a Q30 (llif uchaf). Mae'r wybodaeth hon yn rhoi darlun realistig o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd mewn corff dŵr penodol (uned dŵr wyneb is-ddalgylch neu uned dŵr daear).

9.3.3 Mae'r fframwaith cyfreithiol yn darparu lefel uchel iawn o warchodaeth i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mae safleoedd Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hefyd yn bwysig iawn yn amgylcheddol. Mae pob cais am drwydded newydd ger neu o fewn y safleoedd hyn yn destun asesiad o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar gyfer effeithiau posibl ar nodweddion y safle, yn unigol ac ar y cyd â thrwyddedau eraill. Arweiniodd yr Adolygiad o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd at newid rhai trwyddedau ac mae gan Gleddau Ddu a Chleddau Wen bellach statws 'Dim dŵr ar gael' (yn hytrach na 'gormod o drwyddedau').

9.3.4 Mae *Strategaeth trwyddedu tynnu dŵr Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro* (Mai 2014) Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer pwyntiau asesu penodol. Nid yw'r cyhoeddiad am yr adnoddau sydd ar gael wedi cael ei ddiweddaru ers 2014, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn diweddaru'r data ffynhonnell er mwyn rhoi cyngor ar geisiadau am drwyddedau tynnu dŵr newydd a newidiadau i drwyddedau presennol.

**Argaeledd dŵr ar gyfer pwyntiau asesu dalgylchoedd Cleddau**

| Cyf | Enw | Argaeledd Adnoddau Dŵr yn Q95 |
|---|---|---|
| 1 | Cleddau Wen ar derfyn y llanw | Nid oes dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 2 | Cleddau Wen yng ngorsaf fesur Prendergast Mill | Dŵr dan gyfyngiadau ar gael i'w drwyddedu |
| 3 | Cleddau Wen yn Nhrefgarn | Dŵr dan gyfyngiadau ar gael i'w drwyddedu |
| 4 | Cleddau Wen yng Nghasmorys | Dŵr dan gyfyngiadau ar gael i'w drwyddedu |
| 5 | Cartlett Brook | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 6 | Anghof yng Nghas-blaidd | Dŵr dan gyfyngiadau ar gael i'w drwyddedu |

| Cyf | Enw | Argaeledd Adnoddau Dŵr yn Q95 |
|---|---|---|
| 7 | Cleddau Ddu ar derfyn y llanw | Nid oes dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 8 | Cleddau Ddu yng ngorsaf fesur Pont Canaston | Nid oes dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 9 | Cleddau Ddu i fyny'r afon o Syfynwy | Nid oes dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 10 | Syfynwy i fyny'r afon o gydlifiad Cleddau Ddu | Nid oes dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |

**Argaeledd dŵr ar gyfer pwyntiau asesu dalgylchoedd Afonydd Arfordirol Sir Benfro**

| Pwynt Asesu | Enw | Argaeledd Adnoddau Dŵr yn Q95 |
|---|---|---|
| 1 | Nanhyfer ar derfyn y llanw | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 2 | Gwaun ar derfyn y llanw | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 3 | Gwaun yng ngorsaf fesur Pont Cilrhedyn | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 4 | Alun yng ngorsaf fesur Tyddewi | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 5 | Solfach yng ngorsaf fesur y Felin Ganol | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 6 | Llif Fflatiau Gann | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 7 | Westfield Pill | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 8 | Cors Castellmartin | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |
| 9 | Ritec | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |

DRAFT

| Pwynt Asesu | Enw | Argaeledd Adnoddau Dŵr yn Q95 |
|---|---|---|
| 10 | Afon Cresswell | Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu |

9.3.5 Roedd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Darpariaethau Trosiannol) 2017 yn dileu’r rhan fwyaf o’r eithriadau i drwyddedu dŵr daear. Mae gwaith tynnu dŵr perthnasol yn Sir Benfro yn dod o dan y trefniadau trwyddedu trosiannol.

9.3.6 Asesiad o Gyflwr ACA Sir Benfro Forol a Niwtraliaeth o ran Maethynnau

9.3.7 Ym mis Mehefin 2025 rhyddhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) asesiadau manwl o gyflwr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Morol. Dangosodd yr adroddiad hwn fod y rhan fwyaf o nodweddion ACA Sir Benfro Forol mewn cyflwr anffafriol, a bod llygredd maethynnau ar ffurf nitrogen anorganig toddedig yn un o'r prif resymau dros hyn. Yn fuan ar ôl hyn rhyddhawyd haen GIS yn amlinellu'r dalgylchoedd sydd angen niwtraliaeth o ran maethynnau. Y mwyaf o'r dalgylchoedd hyn yw dalgylch Aberdaugleddau Mewnol, sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o Sir Benfro, gan gynnwys rhan sylweddol o'r Parc Cenedlaethol.

DRAFT



Pembrokeshire Coast National Park
Marine SAC Freshwater Catchments Requiring Nitrogen Neutrality
PEMBROKESHIRE COAST NATIONAL PARK
ST BRIDES BAY
CARMARTHEN BAY
MYNYDD PRESELI
FISHGUARD
PEMBROKE
ST DAVIDS
Saundersfoot
Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights reserved. © Crown Copyright and Database Rights. Ordnance Survey Licence number AC0000849444. © Crown Copyright: Welsh Government.

## 9.4 Ansawdd Dŵr Ymdrochi

9.4.1 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal asesiadau o ansawdd dŵr ymdrochi mewn nifer o leoliadau ar hyd a lled Cymru rhwng mis Mai a mis Medi bob blwyddyn; defnyddir y canlyniadau wedyn i roi amcanestyniad o sgôr/dosbarthiad blynyddol (gweler isod). Mae'r sgôr hon wedi'i seilio'n bennaf ar y crynodiadau o golifformau ysgarthol sy'n bresennol yn y dŵr[9].

Cesglir data mewn 29 o leoliadau yn y Parc Cenedlaethol:




[9] I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalennau gwe Ansawdd Dŵr Ymdrochi Cyfoeth Naturiol Cymru.

Graddfa Dosbarthiad Ansawdd Dŵr Ymdrochi:

| |
|---|
| **Rhagorol** |
| **Da** |
| **Digonol** |
| **Gwael** |

9.4.2 Yn 2022 cafodd pob un o'r lleoliadau dŵr ymdrochi a aseswyd yn y Parc Cenedlaethol eu dosbarthu fel "Da" neu "Rhagorol" (2 neu 3 seren). Yn 2023, dychwelodd ansawdd dŵr yng Ngogledd Dinbych-y-pysgod i fod yn rhagorol, a gostyngodd Llanrhath i dda, a gostyngodd Pont Wisemans i ddigonol.

DRAFT

| Lleoliad / Blwyddyn | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Abereiddi** | Dim dosbarthiad | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Abermawr** | Dim dosbarthiad | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Dim dosbarthiad** | **Dim dosbarthiad** |
| **Llanrhath - canol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Da** | **Da** |
| **Barafundle** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Aberllydan (Canol)** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Aberllydan (De)** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Caerfai** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Traeth y Castell, Dinbych-y-pysgod** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Da** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |

| Lleoliad / Blwyddyn | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Coppet Hall** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Dale** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Druidston Haven** | Dim dosbarthiad | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Freshwater East** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Freshwater West** | Dim dosbarthiad | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Little Haven** | Dim dosbarthiad | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Da** | **Da** | **Da** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Lydstep** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Maenorbŷr** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Marloes Sands** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Niwgwl** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |

| Lleoliad / Blwyddyn | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gogledd Trefdraeth** | **Da** | **Da** | **Da** | **Rhagorol** | **Da** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Nolton Haven** | Dim dosbarthiad | **Digonol** | **Rhagorol** | **Da** | **Da** | **Digonol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Penalun** | Dim dosbarthiad | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Gorllewin Poppit** | **Rhagorol** | **Da** | **Da** | **Da** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Sandy Haven** | Dim dosbarthiad | **Da** | **Da** | **Da** | **Da** | **Digonol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Saundersfoot** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Dinbych-y-pysgod (Gogledd)** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Da** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Dinbych-y-pysgod (De)** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Angle (Gorllewin)** | **Rhagorol** | **Da** | **Da** | **Da** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |

| Lleoliad / Blwyddyn | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bae Porth Mawr** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** | **Rhagorol** |
| **Wiseman's Bridge** | Dim dosbarthiad | **Digonol** | **Digonol** | **Da** | **Da** | **Da** | **Da** | **Digonol** | **Digonol** |

**Crynodeb Llygredd**

- **Ansawdd aer.**
- **Mae'r mwyafrif o ddyfroedd y Fframwaith Dŵr sydd o fewn neu yn rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol mewn cyflwr "cymedrol".**
- **Mae ansawdd dŵr y traeth yn y Parc Cenedlaethol wedi’i raddio fel rhagorol neu'n dda ar y cyfan, yr unig eithriad yw Pont Wiseman sydd wedi'i raddio fel "digonol" am y ddwy flynedd ddiwethaf.**
- **Mae ACA Sir Benfro Forol mewn cyflwr anffafriol i raddau helaeth oherwydd gorfaethu, gyda nitrogen anorganig toddedig yn llygrydd allweddol.**

# 10 Newid Hinsawdd

## 10.1 Trosolwg

10.1.1 Mae amcanestyniadau'r Swyddfa Dywydd yn dangos y gallai Cymru brofi glawiad mwy dwys, mwy o lifogydd mewn ardaloedd isel ac arfordirol ynghyd â hafau poethach a sychach. [10]

10.1.2 Mae amcanestyniadau ar gyfer codiad yn lefel y môr a ddisgrifir yn UKCP18[11] yn dangos y gallai Cymru, mewn senario cymedrol, brofi codiad o 0.5m yn lefel y môr erbyn 2100 gyda senario uchel yn awgrymu codiad o 1m.  O ganlyniad i hyn, mae'n debygol y byddai ardaloedd arfordirol yng Nghymru yn dioddef llifogydd mwy mynych a difrifol, a byddai erydu arfordirol yn cynyddu.  Byddai'r risg i seilwaith a chymunedau yn cynyddu'n sylweddol hefyd.

DRAFT

[10] Cyfoeth Naturiol Cymru / Trosolwg o newid yn yr hinsawdd
[11] UK Climate Projections (UKCP) - Y Swyddfa Dywydd

## 10.2 Llifogydd

10.2.1 Mae'r risg o lifogydd yn y Parc Cenedlaethol wedi'i gyfyngu'n bennaf i ddyffrynnoedd afonydd a rhai ardaloedd arfordirol isel. Darperir data a mapiau perygl llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn MapDataCymru (Llywodraeth Cymru: MapDataCymru) ac fel rhaglen ryngweithiol ar wefan the Cyfoeth Naturiol Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwiriwch eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru. Mae'r set ddata hon, "Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio", yn cynnwys lwfans ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

10.2.2 Yn ystod haf 2025, mae tua 6% o gyfeiriadau (preswyl, masnachol a diwydiannol) yn y Parc Cenedlaethol mewn ardaloedd a ddynodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhai lle mae perygl llifogydd o afonydd neu'r môr. Mae 1% arall mewn ardaloedd a ddynodwyd fel rhai lle mae perygl o lifogydd o ganlyniad i ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bychain. Mae'r tabl isod yn eu dangos yn ôl math a pharth y risg:

| | Nifer y cyfeiriadau | Cyfeiriadau mewn parth llifogydd fel canran o'r holl gyfeiriadau yn y Parc Cenedlaethol |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Cyfeiriadau mewn Parth Llifogydd Afon neu'r Môr** | 999 | 6% |

**Wedi'u Rhannu'n ôl Parth Llifogydd:**

| | Nifer y cyfeiriadau | Canran y cyfeiriadau mewn parth llifogydd |
|---|---|---|
| **Parth Llifogydd 2** | 158 | 16% |
| **Parth Llifogydd 3** | 841 | 84% |

DRAFT

10.2.3 Daw'r data yn y tablau uchod o The Flood Map for Planning (FMfP) ac Address Base Core yr OS (cyrchwyd ar 19/08/2025). Diffinnir parthau 2 a 3 fel a ganlyn:

**Parth Llifogydd 2:**

- Afonydd â siawns o lai nag 1% (1 mewn 100) ond sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1% (1 mewn 1,000) o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn dan sylw, gan gynnwys lwfans ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

- Y môr â siawns o lai na 0.5% (1 mewn 200) ond sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1% (1 mewn 1,000) o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn dan sylw, gan gynnwys lwfans ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

- Dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bychain â siawns o lai nag 1% (1 mewn 100) ond sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1% (1 mewn 1,000) o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn dan sylw, gan gynnwys lwfans ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

**Parth Llifogydd 3:**

- afonydd â siawns o 1% (1 mewn 100) neu fwy o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn dan sylw, gan gynnwys lwfans ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

- y môr â siawns o 0.5% (1 mewn 200) neu fwy o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn dan sylw, gan gynnwys lwfans ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

- dŵr wyneb a chyrsiau â siawns o 1% (1 mewn 100) neu fwy o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn dan sylw, gan gynnwys lwfans ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

DRAFT




**Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio Parthau Llifogydd. Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru (Awst 2025)**




**Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ardaloedd llifogydd yn ardal Dinbych-y-pysgod. Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru (Awst 2025)**




**Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio parthau llifogydd yn ardal Trefdraeth. Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru (Awst 2025)**

I gael yr wybodaeth fwyaf cyfredol am berygl llifogydd, ewch i Cyfoeth Naturiol Cymru / Map llifogydd ar gyfer cynllunio /map cynghori ar ddatblygiadau.

## Llifogydd hanesyddol

10.2.4 Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rywfaint o ddata am lifogydd hanesyddol sydd wedi'u cofnodi. Mae'r mapiau isod mewn rhai lleoliadau allweddol yn y Parc Cenedlaethol sy'n dangos hyd a lled y llifogydd yn y gorffennol.

**Ffynhonnell y data: Cyfoeth Naturiol Cymru (Meintiau Llifogydd wedi'u cofnodi) MapDataCymru)**


Recorded flood extents:Amroth
Amroth Farm
Castle Wood
Wood Cottage
Amroth
Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved.
© Crown copyright and database rights. Ordnance Survey 2024


Recorded flood extents:Newgale
Newgale Farm
Bryn-Y-Mor
Newgale
Wood
A487
Southwood Lodge
Southwood
Pinch Cottage
Welsh Road
Bathesland Wood
Traeth Niwgwl / Newgale Sands
Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved.
© Crown copyright and database rights. Ordnance Survey 2024


Recorded flood extents:Saundersfoot
Saundersfoot County Primary School
Play Space
Frances Road
The Strand
Wogan Lane
B4316
B4316
B4316
B4316
Saundersfoot
Saundersfoot Bay
Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved.
© Crown copyright and database rights. Ordnance Survey 2024

DRAFT


Recorded flood extents:Tenby
South Astridge Cottage
Knightston Brook
B4316
Rowston Farm
Beech House
Woodville Cottage
The Hunting Lodge
Windmill Park Wood
Astridge Bottom
Rileys Cottage
White Lodge
Woodpecker House
Cornish Down
Bells Wood
A478
Gumfreston
B4318
Scotsborough Wood
A4218
The Croft
The Green
B4318
Rhydeg / The Ritec
Clicket Lane
North Beach
Tenby
Tenby
Robertswall Farm
Penhoyle Farm
The Dunes
Trefloyne Wood
Holloway Hill
A4139
The Old Pound
The Ridgeway
Oxland Cottage
Penally
South Beach
Crackwell Farm
Penally
Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved.
© Crown copyright and database rights. Ordnance Survey 2024




**Unedau Polisi Cynllun Rheoli Traethlin (SMP)**

Mae’r Cynllun Rheoli Traethlin yn nodi cyfeiriad y polisi strategol ar gyfer rheoli’r risgiau sy’n gysylltiedig â phrosesau arfordirol, gyda’r nod o leihau’r risgiau i bobl, i ddatblygiadau ac i’r amgylcheddau hanesyddol a naturiol. Mae’r prosesau arfordirol sy’n cael eu hystyried yn cynnwys: patrymau llanw, uchder tonnau, cyfeiriad y tonnau a symudiad deunyddiau’r traeth a gwely’r môr. Mae’r map isod yn dangos dull y polisi ar gyfer rhannau o arfordir Sir Benfro yn y tymor byr (epoch 1 – 20 blwyddyn).




**Ffynhonnell y data: Polisïau Cynllun Rheoli Traethlin Cyfoeth Naturiol Cymru | MapDataCymru**

**Crynodeb Newid Hinsawdd**

- **Dyma effeithiau rhagamcanol newid hinsawdd ar Gymru:**
  - **Mwy o law trwm a llifogydd**
  - **Hafau poethach, sychach**
  - **Cynnydd yn lefel y môr.**
- **Llifogydd:**
  - **~Mae 6% o'r cyfeiriadau yn y Parc Cenedlaethol mewn perygl o lifogydd o afonydd neu'r môr, gydag 1% ychwanegol o'r cyfeiriadau mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb**
  - **Mae 84% o'r cyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd neu'r môr ym Mharth Llifogydd 3**
  - **Mae 16% o'r cyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd neu'r môr ym Mharth Llifogydd 2.**

# 11 Bioamrywiaeth

11.1.1 Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnwys, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, 60 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), pum Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), a 12 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

11.1.2 Mae'r map canlynol yn dangos lleoliad y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r cyffiniau.




## 11.2 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

11.2.1 Mae'r data diweddaraf ar gyflwr SoDdGA, CNC 2021[12], yn dangos mai dim ond 14% o'r SoDdGA yn y Parc Cenedlaethol sydd mewn cyflwr ffafriol.

[12] https://www.cnp.org.uk/wp-content/uploads/2024/04/National-Parks-Health-Check-Report-Nature-Recovery-2024.pdf?utm_source=chatgpt.com

# 11.3 Safleoedd Rhwydweithiau Natur

11.3.1 Mae gwybodaeth ar safleoedd y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol - Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) – wedi'i darparu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, neu wedi'i chyrchu o wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae rhagor o wybodaeth am safleoedd y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol o fewn ac ar gyrion y Parc Cenedlaethol i'w chael yn yr adroddiadau Sgrinio ac Asesiadau Priodol sy'n rhan o Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

## 1.1.1.1 ARDALOEDD CADWRAETH ARBENNIG

### UK0012670 Afon Teifi / River Teifi

Cymeriad cyffredinol y safle

Afonydd llanw. Aberoedd. Gwastadeddau llaid. Gwastadeddau tywod. Morlynnoedd (gan gynnwys basnau gwaith halen) (20%); Morfeydd heli. Porfeydd heli.  Steptiroedd heli (1.7%); Cyrff dŵr mewndirol (dŵr llonydd, dŵr sy'n llifo) (45.1%); Mawnogydd. Corsydd. Llystyfiant ar lannau dŵr. Ffeniau (8.9%); Rhosydd. Prysgwydd. Maquis a garrigue. Phygrana (2.7%); Glaswelltir llaith. Glaswelltir mesoffil (1.7%); Glaswelltir wedi'i wella (7.5%); Coetir collddail llydanddail (10.5%); Creigiau mewndirol. Sgri. Tywod. Tir arall (gan gynnwys trefi, pentrefi, ffyrdd, mannau gwastraff, mwyngloddiau, safleoedd diwydiannol) (0.8%).




**Map A1.1: ACA Afon Teifi**

| **Nodwedd** | **Cyflwr** |
|---|---|
| 3260 Cyrsiau dŵr o lefelau gwastatir i fynyddig gyda llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion | Ffafriol: Di-ddosbarth |
| **3130** Dyfroedd llonydd oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant Littorelletea uniflorae a/neu'r Isoáto-Nanojuncetea | Ffafriol: Di-ddosbarth |
| 1096 Llysywen bendoll y nant *Lampetra planeri* | Anffafriol: Wedi'i adfer |
| 1099 Llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis* | Anffafriol: Wedi'i adfer |
| 1106 Eog yr Iwerydd *Salmo salar* | Anffafriol: Dim newid |
| 1163 Penlletwad *Cottus gobio* | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| 1355 Dyfrgi *Lutra lutra* | Ffafriol: wedi'i gynnal |
| 1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans* | Ffafriol: wedi'i gynnal |

| **Nodwedd** | **Cyflwr** |
|---|---|
| 1095 Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus* | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| 3260 Cyrsiau dŵr o lefelau gwastatir i fynyddig gyda llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion | Ffafriol: Wedi'i gynnal |
| 7110 Cyforgorsydd actif | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| 91E0 Fforestydd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa a Fraxinus excelsior* (Alno-Padion, Alnion incanae, Salicon albae) | Anffafriol: Di-ddosbarth |

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Afon Teifi / River Teifi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud bod angen iddo gadarnhau cyflwr nodweddion yr afon nad ydynt wedi cael eu gwirio eto.

## UK0030074 Afonydd Cleddau / Cleddau Rivers

Cymeriad cyffredinol y safle

- Cyrff dŵr mewndirol (Dŵr llonydd, Dŵr yn llifo) (26%)
- Mawnogydd, Corsydd, llystyfiant wrth ymyl dŵr, Ffeniau (17%)
- Rhostir, Prysgwydd, Maquis a Garrigue, Phygrana (17%)
- Glaswelltir sych, Stepdir (2%)
- Glaswelltir wedi'i wella (9%)
- Tir âr arall (0.3%)
- Coetir collddail llydan (26%)
- Coetir conifferaidd (2%)
- Coetir cymysg (0.2%)
- Tir arall (gan gynnwys Trefi, Pentrefi, Ffyrdd, Mannau gwastraff, Mwyngloddiau, Safleoedd diwydiannol) (0.5%).




**Map A1.2 Ardal Cadwraeth Arbennig Afonydd Cleddau**

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 3260 Cyrsiau dŵr o lefelau gwastatir i fynyddig gyda llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion | Anffafriol |
| 7110 Corgorsydd Actif * Nodwedd â blaenoriaeth | Anffafriol |
| 91E0 Fforestydd llifwaddodol gydag Alnus glutinosa a Fraxinus excelsior (Alno-Padion, Alnion incanae, Salicon albae) * Nodwedd â blaenoriaeth | Anffafriol |
| 1096 Llysywen bendoll y nant *Lampetra planeri* | Anffafriol |
| 1099 Llysywen bendoll yr afon*Lampetra fluviatilis* | Anffafriol |
| 1163 Penlletwad *Cottus gobio* | Anffafriol |
| 1355 Dyfrgi *Lutra lutra* | Anffafriol |

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 1095 Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus* | Anffafriol |
| 3260 Cyrsiau dŵr o lefelau gwastatir i fynyddig gyda llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion | Ffafriol: Wedi'i gynnal |
| 7110 Cyforgorsydd actif | Anffafriol |

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur:Afonydd Cleddau

## UK0012712 Bae Ceredigion

Cymeriad cyffredinol y safle

Ardaloedd morol. Cilfachau (99.5%); Twyni tywod arfordirol. Traethau tywod. Machair (0.01%); Cerrig mân. Clogwyni môr. Ynysigau (0.39%); Cyrff dŵr mewndirol (dŵr llonydd, dŵr sy'n llifo) (0.01%); Rhosydd. Prysgwydd. Maquis a garrigue. Phygrana (0.07%); Coetir collddail llydan (0.02%).

DRAFT




**Map A1.3 Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion**

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 1110 Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg | Anffafriol |
| 1170 Riffiau | Anffafriol |
| 8330 Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr | Ffafriol |
| 1349 Dolffin trwyn potel *Tursiops truncatus* | Ffafriol |
| 1095 Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus* | Anffafriol |
| 1099 Llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis* | Anffafriol |
| 1364 Morlo llwyd *Halichoerus grypus* | Ffafriol |

**Gwybodaeth dros dro yw'r cyflwr a'r tueddiadau**

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Bae Ceredigion

## UK0020020 Bae Caerfyrddin ac Aberoedd

Cymeriad cyffredinol y safle

Ardaloedd morol. Cilfachau (82.1%); Afonydd llanw. Aberoedd. Gwastadeddau llaid. Gwastadeddau tywod. Morlynnoedd (gan gynnwys basnau gwaith halen) (13.7%); Morfeydd heli. Porfeydd heli. Steptiroedd heli (4.1%); Cerrig mân. Clogwyni môr. Ynysigau (0.1%).




**Map A1.4: ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd**

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 1110 Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg | Ffafriol |
| 1130 Aberoedd | Ffafriol |
| 1140 Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel | Ffafriol |
| 1160 Cilfachau a baeau bas mawr | Ffafriol |

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 1310 Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod | Ffafriol |
| 1330 Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*) | Anffafriol |
| 1103 Gwangen *Alosa fallax* | Anffafriol: Dim newid |
| 1095 Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus* | Anffafriol |
| 1099 Llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis* | Anffafriol |
| 1102 Herlyn *Alosa alosa* | Anffafriol: Dim newid |
| 1355 Dyfrgi *Lutra lutra* | Ffafriol |

**Gwybodaeth dros dro yw'r cyflwr a'r tueddiadau**

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Bae Caerfyrddin ac Aberoedd

## UK0030144 Gweunydd Blaencleddau

Cymeriad cyffredinol y safle

- Mawnogydd, Corsydd, llystyfiant wrth ymyl dŵr, Ffeniau (19%)
- Rhostir, Prysgwydd, Maquis a Garrigue, Phygrana (10%)
- Glaswelltir sych, Stepdir (1.5%)
- Glaswelltir llaid, Glaswelltir Mesoffil (54.5%)
- Glaswelltir wedi'i wella (5%)
- Coetir collddail llydan (9.5%)
- Tir arall (gan gynnwys Trefi, Pentrefi, Ffyrdd, Mannau gwastraff, Mwyngloddiau, Safleoedd diwydiannol) (0.5%).

DRAFT




**Map A1.5: ACA Gweunydd Blaencleddau**

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 4010 Rhostiroedd gwlyb Gogledd Iwerydd gydag *Erica tetralix* | Anffafriol: Yn adfer |
| 7130 Gorgorsydd | Anffafriol: Yn adfer |
| 6410 Dolydd Gwellt y Gweunydd | Anffafriol: Yn dirywio |
| 7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig | Anffafriol: Dim newid |
| 7230 Ffeniau alcalïaidd | Ffafriol: Wedi'i gynnal |
| 1065 Glöyn byw britheg y gors *Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia* | Anffafriol |
| 1044 Mursen las Penfro *Coenagrion mercuriale* | Anffafriol: Di-ddosbarth |

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Gweunydd Blaencleddau

## UK0014787 Arfordir Calchfaen De Orllewin Cymru

Cymeriad cyffredinol y safle

- Afonydd llanw. Aberoedd. Gwastadeddau llaid. Gwastadeddau tywod. Morlynnoedd (gan gynnwys basnau gwaith halen) (15%)
- Twyni tywod arfordirol. Traethau tywod. Machair (27%)
- Cerrig mân. Clogwyni môr. Ynysigau (22%)
- Cyrff dŵr mewndirol (Dŵr llonydd, Dŵr yn llifo) (1%)
- Mawnogydd, Corsydd, llystyfiant wrth ymyl dŵr, Ffeniau (1%)
- Rhostir, Prysgwydd, Maquis a Garrigue, Phygrana (14%)
- Glaswelltir sych, Stepdir (2%)
- Glaswelltir llaid, Glaswelltir Mesoffil (10%)
- Coetir collddail llydan (1%)
- Coetir conifferaidd (1%)
- Tir arall (gan gynnwys Trefi, Pentrefi, Ffyrdd, Mannau gwastraff, Mwyngloddiau, Safleoedd diwydiannol) (6%).

DRAFT




**Map A1.6 ACA rfordir Calchfaen De Orllewin Cymru  (mae'r ACA hefyd yn cynnwys rhannau o arfordir Gŵyr rhwng Pen Pyrod a Thrwyn Pwlldu)**

| **Nodwedd** | **Cyflwr** |
|---|---|
| 1230 Clogwyni môr â llystyfiant ar Arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| 2130 Twyni sefydlog â llystyfiant llysieuol (`twyni llwyd`) | Ffafriol |
| 4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| 6210 Glaswelltir sych lled-naturiol ac ansoddion prysgdir ar is-haenau calchaidd (Festuco-Brometalia) | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| 8310 Ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd | Ffafriol |
| 8330Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr | Ffafriol: Wedi'i gynnal |
| 1304 Ystlum pedol mwyaf  *Rhinolophus ferrumequinum* | Ffafriol |

| | |
|---|---|
| 1654 Crwynllys cynnar *Gentianella anglica* | Anffafriol: Dim newid |
| 1395 Llysiau'r afu petalog *Petalophyllum ralfsii* | Ffafriol: Wedi'i gynnal |

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Arfordir Calchfaen De Orllewin Cymru

## UK0030227 Coedydd Gogledd Sir Benfro

Cymeriad cyffredinol y safle

- Cyrff dŵr mewndirol (Dŵr llonydd, Dŵr yn llifo) (0.3%)
- Mawnogydd, Corsydd, llystyfiant wrth ymyl dŵr, Ffeniau (0.6%)
- Rhostir, Prysgwydd, Maquis a Garrigue, Phygrana (13%)
- Glaswelltir sych, Stepdir (3%)
- Glaswelltir llaid, Glaswelltir Mesoffil (9%)
- Coetir collddail llydan (70%)
- Creigiau Mewndirol, Sgri, Tywod (0.1%)
- Tir arall (gan gynnwys Trefi, Pentrefi, Ffyrdd, Mannau gwastraff, Mwyngloddiau, Safleoedd diwydiannol) (4%).

DRAFT




**Map A1.7 ACA Coedydd Gogledd Sir Benfro**

| **Nodwedd** | **Cyflwr** |
|---|---|
| 91A0 Hen goed derw di-goes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain | Anffafriol: Yn dirywio |
| 91E0 Fforestydd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* (Alno-Padion, Alnion incanae, Salicon albae) | Ffafriol: Wedi'i gynnal |
| 1308 Ystlum du *Barbastella barbastellus* | Ffafriol: Di-ddosbarth |

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Coedydd Gogledd Sir Benfro

## UK0030229 Comin Gogledd Orllewin Sir Benfro

Cymeriad cyffredinol y safle

Cyrff dŵr mewndirol (dŵr llonydd, dŵr yn llifo) (0.3%); Mawnogydd. Corsydd. Llystyfiant ar lannau dŵr. Ffeniau (14.4%); Rhosydd. Prysgwydd. Maquis a garrigue. Phygrana (29.7%); Glaswelltir sych. Stepdir (0.2%); Glaswelltir llaith.

Glaswelltir mesoffil (42%); Glaswelltir wedi'i wella (0.4%); Coetir collddail llydan (11.6%); Tir arall (gan gynnwys trefi, pentrefi, ffyrdd, mannau gwastraff, mwyngloddiau, safleoedd diwydiannol) (1.4%).




**Map A1.8: ACA Comins Gogledd Orllewin Sir Benfro SAC**

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd | Anffafriol: Dim newid |
| 7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig | Anffafriol: Dim newid |
| 4010 Rhostiroedd gwlyb Gogledd Iwerydd gydag Erica tetralix | Anffafriol: Yn adfer |
| 1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans* | Anffafriol: Di-ddosbarth |

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Comin Gogledd Orllewin Sir Benfro

## UK0014793 Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton

Cymeriad cyffredinol y safle

Cyrff dŵr mewndirol (dŵr llonydd, dŵr yn llifo) (33%); Mawnogydd. Corsydd. Llystyfiant ar lannau dŵr. Ffeniau (5%); Rhosydd. Prysgwydd. Maquis a garrigue. Phygrana (13%); Glaswelltir sych. Stepdir (3%); Glaswelltir wedi'i wella (1.8%); Coetir collddail llydan (29%); Coetir cymysg (15%); Tir arall (gan gynnwys trefi, pentrefi, ffyrdd, mannau gwastraff, mwyngloddiau, safleoedd diwydiannol) (0.2%).

Mae'r ACA hwn yn cynnwys nifer o safleoedd ar wahân:  Llynnoedd Bosherston; Adeiladau Allanol Park House, Ystanbwll; Fflatiau Cwrt a Gardd Furiog Ystagbwll; Felin Llwyngwair; Castell Caeriw;  Beech cottage, Waterwynch; Llofft Iard Stablau, Serleri a Thwnneli Slebech; ac Orielton (y tu allan i'r Parc Cenedlaethol).




**Map A1.9: ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton**




**Map A1.9a: ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton**




**Map A1.9b: ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton**




**Map A1.9c: ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton**

DRAFT




**Map A1.9d: ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton**




**Map 1.9e: ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton**




**Map 1.9f: ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton**

| **Nodwedd** | **Cyflwr** |
|---|---|
| 3140 Dŵr oligotroffig caled gyda llystyfiant benthig *Chara spp.* | Anffafriol: Yn dirywio |
| 1304 Ystlum pedol mwyaf *Rhinolophus ferrumequinum* | Ffafriol: Wedi'i gynnal |
| 1303 Ystlum pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros* | Anffafriol: Yn dirywio |
| 1355 Dyfrgi *Lutra lutra* | Anffafriol: Di-ddosbarth |

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton

## UK0013116 Sir Benfro Forol

Cymeriad cyffredinol y safle

11.3.2 Ardaloedd morol. Cilfachau (96%); Afonydd llanw. Aberoedd. Gwastadeddau llaid. Gwastadeddau tywod. Morlynnoedd (gan gynnwys

basnau gwaith halen) (3.8%); Morfeydd heli. Porfeydd heli. Steptiroedd heli (0.2%).




**Map A1.10 ACA Sir Benfro Forol**

| **Nodwedd** | **Cyflwr** |
|---|---|
| 1130 Aberoedd | Anffafriol |
| 1160 Cilfachau a baeau bas mawr | Anffafriol |
| 1170Riffiau | Anffafriol |
| 1110 Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg | Ffafriol |
| 1140 Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel | Anffafriol |
| 1150 Morlynnoedd Arfordirol | Anffafriol |
| 1330 Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*) | Anffafriol |

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 8330Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr | Anhysbys |
| 1364 Morlo llwyd *Halichoerus grypus* | Ffafriol |
| 1441 Tafolen y traeth *Rumex rupestris* | Anffafriol |
| 1095 Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus* | Anffafriol |
| 1099 Llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis* | Anffafriol |
| 1102 Herlyn *Alosa alosa* | Anffafriol |
| 1103 Gwangen *Alosa fallax* | Anffafriol |
| 1355 Dyfrgi *Lutra lutra* | Anffafriol |

**Gwybodaeth dros dro yw'r cyflwr a'r tueddiadau**

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Sir Benfro Forol

## UK0012598 Preseli

Cymeriad cyffredinol y safle

11.3.3 Mawnogydd. Corsydd. Llystyfiant ar lannau dŵr. Ffeniau (36%); Rhosydd. Prysgwydd. Maquis a garrigue. Phygrana (31%); Glaswelltir sych. Stepdiroedd (32%); Creigiau mewndirol. Sgri. Tywod.

DRAFT




**Map A1.11 ACA Preseli**

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 4010 Rhostiroedd gwlyb Gogledd Iwerydd gydag *Erica tetralix* | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| 4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| 7150 Pantiau ar swbstradau mawn y Rhynchosporion | Anffafriol: Yn dirywio |
| 7230 Ffeniau alcalïaidd | Ffafriol: Di-ddosbarth |
| 1044 Mursen las Penfro *Coenagrion mercuriale* | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| 1065 Glöyn byw britheg y gors *Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia* | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| 1393 Mwsogl pluog main gwyrdd *Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus* | Ffafriol: Yn cael ei gynnal |

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur:Y Preseli

Cymeriad cyffredinol y safle

11.3.4 Ardaloedd morol. Cilfachau (12%); Twyni tywod arfordirol. Traethau tywod. Machair (1%); Cerrig mân. Clogwyni môr. Ynysigau (86%); Mawnogydd. Corsydd. Llystyfiant ar lannau dŵr. Ffeniau (1%).




**Map A1.12 ACA Tŷ Ddewi**

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 1230 Clogwyni môr â llystyfiant ar Arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig | Anffafriol: Yn adfer |
| 4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd | Anffafriol: Yn adfer |
| 1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans* | Ffafriol: Wedi'i gynnal |

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Tyddewi

Cymeriad cyffredinol y safle

Mawnogydd. Corsydd. Llystyfiant ar lannau dŵr. Ffeniau (3.7%); Rhosydd. Prysgwydd. Maquis a garrigue. Phygrana (9.1%); Glaswelltir llaith. Glaswelltir mesoffil (25.7%); Glaswelltir wedi'i wella (9.6%); Coetir collddail llydanddail (51.9%).

DRAFT




Map A1.13 ACA Dynesfeydd Môr Hafren

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| 1315 Llamhidydd | Dim data ar hyn o bryd |

Rhagor o wybodaeth:

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: MPA Dynesfeydd Môr Hafren




**Map A1.14 ACA Gorllewin Cymru Forol**

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| [1315 Llamhidydd]() | Dim data ar hyn o bryd |

Rhagor o wybodaeth:

[Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Gorllewin Cymru Forol]()




**Map A1.15 ACA Yerbeston Tops gyda rhannau o Rosydd Yerbeston / Yerbeston Moors SoDdGA**

| Nodwedd | Cyflwr |
|---|---|
| *6410* Dolydd Molinia ar briddoedd calchaidd, mawnaidd neu gleiog llawn silt (Molinion caeruleae) | Anffafriol: Dim newid |
| 1065 Glöyn byw britheg y gors *Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia* | Anffafriol: Dim newid |

Rhagor o wybodaeth: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Yerbeston Tops

## 1.1.1.2 ARDALOEDD GWARCHODAETH ARBENNIG

### UK9014091 Bae Caerfyrddin

Cymeriad cyffredinol y safle

Ardaloedd morol. Cilfachau (100%).




**Map A1.16 AGA Bae Caerfyrddin**

| Atodiad 1 rhywogaethau adar | Nodwedd |
|---|---|
| Môr-hwyaden ddur (Melanitta nigra), ardal gaeafu (Dim ar gael) | |

Rhagor o wybodaeth: [Bae Caerfyrddin: Natura 2000 - Ffurflen Data Safonol]

### UK901401 Arfordir Castellmartin

Cymeriad cyffredinol y safle

Twyni tywod arfordirol. Traethau tywod. Machair (56%); Cerrig mân. Clogwyni môr. Ynysigau (44%).




**Map A1.17 AGA Arfordir Castellmartin**

| Atodiad 1 rhywogaethau adar | Cyflwr |
|---|---|
| Brân goesgoch *(Pyrrhocorax pyrrhocorax)* | Ffafriol |

Rhagor o wybodaeth: [Arfordir Castellmartin: Natura 2000 - Ffurflen Data Safonol]

## UK901401 Gwales

Cymeriad cyffredinol y safle

Cerrig mân. Clogwyni môr.  Ynysigau (100%)




**Map A1.18 AGA Gwales**

| Atodiad 1 rhywogaethau adar | Cyflwr |
|---|---|
| Man bridio huganod Gannet (*Morus bassanus*) | Ffafriol: Wedi'i gynnal |

Rhagor o wybodaeth: Gwales Natura 2000 - Ffurflen Data Safonol

## UK9014062 Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Dewi

Cymeriad cyffredinol y safle

Ardaloedd morol. Cilfachau (11%); Twyni tywod arfordirol. Traethau tywod. Machair (1%); Cerrig mân. Clogwyni môr. Ynysigau (88%).




**Map A1.19 AGA Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Dewi**

| Atodiad 1 rhywogaethau adar | Cyflwr |
|---|---|
| Brân goesgoch *(Pyrrhocorax pyrrhocorax)* | Ffafriol: Di-ddosbarth |

Rhagor o wybodaeth: [Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Dewi: Natura 2000 - Ffurflen Data Safonol]();

## UK9014051 Sgogwm a Sgomer

Cymeriad cyffredinol y safle

Cerrig mân. Clogwyni môr. Ynysigau (100%).




**Map A1.0 AGA Sgogwm a Sgomer**

| Atodiad 1 rhywogaethau adar | Cyflwr |
|---|---|
| Llurs (*Alca torda*) | Ffafriol: Wedi'i gynnal |
| Pâl yr Iwerydd (*Frateula arctica*) | Ffafriol: Wedi'i gynnal |
| Pedryn Drycin (*Hydrobates pelagicus*) | Anffafriol: Di-ddosbarth |
| Aderyn Drycin Manaw (*Puffinus puffinus)* | Ffafriol: Wedi'i gynnal |

Rhagor o wybodaeth: Sgogwm a Sgomer: Natura 2000 - Ffurflen Data Safonol

Mae'r map canlynol yn dangos y gwarchodfeydd Cenedlaethol a Morol o fewn ac yng nghyffiniau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.




11.3.5 Mae diweddariad Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro yn dangos bod 22% o’r nodweddion cadwraeth yn Sir Benfro yn gwella; mae 35% mewn cyflwr sefydlog ac mae 30% yn dirywio. Mae cyflwr y 13% arall yn anhysbys oherwydd prinder data. Mae [Cynllun Gweithredu ar gyfer Adfer Natur Sir Benfro (2018)](#) yn disgrifio strategaeth Partneriaeth Natur Sir Benfro i adfer natur yn y sir.

**Crynodeb Bioamrywiaeth**

- **Dynodiadau Natur yn y Parc Cenedlaethol:**
  - **60 SoDdGA**
  - **12 ACA**
  - **5 AGA.**
- **Dim ond 14% o'r SoDdGAau yn y Parc Cenedlaethol sydd mewn cyflwr ffafriol.**
- **Mae llawer o nodweddion ACAau mewn cyflwr anffafriol.**

## 11.4 Geoamrywiaeth

11.4.1 Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnwys dros 50 o safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol (GCR), sy'n cynnwys tua 40% o Arfordir Sir Benfro (ac eithrio dyfrffordd Aberdaugleddau a Daugleddau). Mae pob safle GCR yn cael eu gwarchod yn gyfreithiol ar ôl iddynt gael eu dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am fonitro cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (sylwch: mae cyflwr safleoedd daearegol yn ddibynnol ar hygyrchedd, gwelededd a defnyddioldeb, hy gwerth y safle i ymchwil ac addysg). Gweler Ffiniau Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol (GCR) MapDataCymru i gael data diweddaraf y GCR."

## 11.5 Pridd

11.5.1 Mae'r Sefydliad Adnoddau Pridd Cenedlaethol (NSRI) ym Mhrifysgol Cranfield (Cranfield University) yn cynhyrchu amrywiaeth o ddata priddoedd i'w defnyddio mewn Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol. Yn anffodus, mae'r data hwn ond ar gael am gost sydd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gyfiawnhau ar gyfer yr awdurdod hwn.

## 11.6 Mawndir

11.6.1 Cynhyrchwyd fap unedig o fawndiroedd Cymru fel rhan o Raglen Monitro a Gwerthuso Glastiroedd er mwyn darparu gwell data ar hyd a lled a chyflwr mawndiroedd yng Nghymru. Mae'r map isod yn is-set o'r map unedig o fawndiroedd Cymru ar gyfer Sir Benfro, gyda ffigurau o faint amcangyfrifiedig mawndiroedd y Parc Cenedlaethol.




| | Arwynebedd (hectar) | Cyfran (%) |
|---|---|---|
| **Sir Benfro** | **727.23** | **0.44%** |
| **Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** | **384.727** | **0.63%** |

11.6.2 Mae Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol 2 (ALC) Llywodraeth Cymru yn cynnwys data dangosol ynglŷn â ble mae'r tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) i'w gael yng Nghymru. Diffinnir BMV fel dosbarthiadau tir amaethyddol 1, 2 a 3a. Mae'r map isod yn dangos data map Rhagweld ALC 2 ar gyfer Sir Benfro ac mae'n cynnwys ystadegau cenedlaethol ar gyfer pob dosbarthiad tir amaethyddol.




Ffynhonnell y data: [Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol 2 (ALC) | MapDataCymru (llyw.cymru)]

11.6.3 Mae BMV yn cyfrif am tua 45% (44.59%) o'r tir yn y Parc Cenedlaethol, gyda dros chwarter y tir (25.78%) yn cael ei ddosbarthu fel 3a; 18.73% fel 2 a 0.08% fel 1.

11.6.4 Mae cyfran y BMV yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol uwch nag yw ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer dosbarthiadau 2 a 3a.

| **Dosbarth** | **APCAP (%)** | **Cymru (%)** |
|---|---|---|
| 1 | 0.08 | 0.25 |
| 2 | 18.73 | 6.38 |
| 3 a | 25.78 | 9.58 |

**Crynodeb Priddoedd**

- **Dim ond ardal fechan (0.63%) o'r Parc Cenedlaethol sy'n cael ei gorchuddio gan fawndir.**
- **Mae'r tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) yn ffurfio 44.6% o'r Parc Cenedlaethol, gyda'r rhan fwyaf ohono'n dir amaethyddol dosbarth 3a.**

DRAFT

# 12 Tirwedd

12.1.1 LANDMAP yw'r system wybodaeth genedlaethol, a ddyfeisiwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, i ystyried y dirwedd wrth wneud penderfyniadau. Mae LANDMAP yn dosbarthu'r dirwedd yn seiliedig ar bum agwedd: Tirweddau daearegol; Cynefinoedd Tirwedd; Gweledol a Synhwyraidd; Tirweddau Hanesyddol a Thirweddau Diwylliannol. Mae ansawdd yr agweddau Gweledol a Synhwyraidd a Chynefinoedd Tirwedd wedi'u sicrhau ar gyfer Sir Benfro. Mae'r agwedd Gweledol a Synhwyraidd wedi'i mapio isod yn ôl gwerth cyffredinol y dirwedd a aseswyd a phresenoldeb golygfeydd gwrthdynnol.




Ffynhonnell y data: Cyfoeth Naturiol Cymru




Ffynhonnell y data: Cyfoeth Naturiol Cymru

12.1.2 Mae APC Arfordir Penfro wedi comisiynu gwaith integredig i bennu nodweddion y dirwedd yn seiliedig ar agweddau LandMap; cafodd y gwaith ei gyhoeddi fel Papur Cefndir i'r Cynllun Datblygu Lleol.

**Crynodeb Tirwedd**

- **Yn gyffredinol, mae Bryniau'r Preseli a'r ardaloedd arfordirol yn cael eu graddio'n uchel am olygfeydd o ansawdd uchel a thawelwch.**
- **Mae ardaloedd â golygfeydd sy'n tynnu oddi ar hyn fel arfer yn gysylltiedig ag aneddiadau mwy, seilwaith neu weithgarwch diwydiannol.**

# 13 Llonyddwch/ Aflonyddwch

13.1.1 Prif elfennau aflonyddwch mewn ardaloedd gwledig yw llygredd golau a sŵn.

13.1.2 Llygredd Golau:

Er nad oes mapio wedi'i wneud i ddangos llygredd golau yn fanwl dros amser, mae data Lloeren VIIRS yn waelodlin dda. Cafodd y map isod ei gynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'u gwaith llonyddwch a lle[13].




13.1.3 Prif ffynonellau llygredd golau yn y Parc Cenedlaethol yw'r aneddiadau mwyaf. Mae rhai o'r ffynonellau mwy lleol yn cynnwys amaethyddiaeth ddwys a gosodiadau sydd wedi'u lleoli y tu allan ond yn agos at y Parc Cenedlaethol. Nid yw'r ucheldiroedd (Bryniau Preseli)

[13] Tawelwch a Lle: Ardaloedd Tawel yn Weledol (cyfoethnaturiol.cymru).

wedi'u datblygu ac maent yn cynrychioli rhannau tywyllaf y Parc Cenedlaethol.

Sŵn:




Contains public sector information licensed under the Open Government Licence v3.0.
Contains OS data © Crown copyright [and database right] 2024.
Cynnwys data OS Ⓗ Hawlfraint y Goron [a hawliau cronfa ddata] OS 2024.




These noise maps were comissioned by the Welsh Government in 2022. The daily average referred to here is "Lden", which indicates the average sound level around the clock with extra weighting given to the evening and night periods.

Data can be downloaded from DataMapWales

https://datamap.gov.wales/layergroups/geonode:Environmental_Noise_Mapping_2022

13.1.4 Gall dangosyddion eraill o aflonyddwch gynnwys presenoldeb a natur ffyrdd, dwysedd y boblogaeth a gweithgarwch twristiaeth (gweler y tabl ar brif leoliadau twristiaeth yn yr adran hamdden o'r atodiad hwn). Os yw'n briodol yn ystod datblygiad y Cynllun Rheoli, bydd y mater hwn yn cael ei ystyried, a bydd rhagor o wybodaeth am aflonyddwch yn cael ei hychwanegu at y llinell sylfaen hon.

**Tawelwch / Aflonyddwch**

- **Prif ffynonellau llygredd golau yn y Parc Cenedlaethol yw aneddiadau mwy, amaethyddiaeth ddwys, a gosodiadau ger ffin y parc e.e. purfeydd olew.**
- **Mae llygredd sŵn wedi'i ganolbwyntio o amgylch coridorau trafnidiaeth a chanolfannau trefol.**

# 14 Gwastraff

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o reolaeth gwastraff trefol yn Sir Benfro.

| Rheolaeth | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwastraff Trefol a Gasglwyd/Cynhyrchwyd | 71044.55 | 66157.53 | 57727.02 | 64590.3 | 60443.52 | 62471.82 |
| Cyfanswm y Gwastraff a Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd/ ei Gompostio (Targed Statudol) | 44021.13 | 47403.01 | 42267.28 | 47307.1 | 43304.7 | |
| Gwastraff a anfonwyd i'w adennill mewn ffyrdd eraill | 0 | 20.97 | 0 | 0 | 0 | 44982.21 |
| Gwastraff a Losgwyd gan Gynhyrchu Ynni | 13801.58 | 13491.41 | 11184.93 | 13077.76 | 13247.63 | 0 |
| Gwastraff a Losgwyd heb Gynhyrchu Ynni | 0 | 0 | 0 | 27.85 | 26.2 | 15956.14 |
| Gwastraff a Anfonwyd i Safleoedd Tirlenwi | 13040.67 | 5053.8 | 3669.61 | 4275.09 | 3289.86 | 0 |
| Canran o'r Gwastraff a Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd/ ei Gompostio (Targed Statudol)* | 61.96 | 71.65 | 73.22 | 73.24 | 71.64 | 1391.80 |

**Ffynhonnell:** Stats Cymru

*Cyfanswm y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio/ailgylchu/compostio (fel y'i diffinnir gan Darged Adennill Statudol Awdurdodau Lleol, LART), fel canran o gyfanswm y gwastraff trefol sy'n cael ei gasglu/ei gynhyrchu.

DRAFT

## 14.1 Sbwriel

14.1.1 Gan yr ymddengys fod sbwriel (gan gynnwys sbwriel traethau) yn broblem sylweddol yn y Parc Cenedlaethol, mae angen gwybodaeth fanwl am lefelau a ffynonellau'r sbwriel. Bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i gael gwybodaeth o'r fath wrth i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ddatblygu.

## 14.2 Tipio anghyfreithlon

14.2.1 Mae data blynyddol ar dipio anghyfreithlon ar gael ar gyfer Sir Benfro gan Lywodraeth Cymru drwy wefan StatsCymru.




**Achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd yn ôl Awdurdod Lleol. Ffynhonnell: StatsCymru**

Ar ôl codi'n sylweddol rhwng 2014-15 a 2016-17, mae amlder tipio anghyfreithlon yn Sir Benfro wedi gostwng yn gyflym i'w bwynt isaf yng nghwmpas amserol y set ddata yn 2022-23. Mae 2023-24 yn dangos cynnydd bychan.

**Crynodeb Gwastraff**

- **Mae cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn Sir Benfro yn gyson uwch na'r targed statudol.**
- **Mae faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn Sir Benfro wedi gostwng yn ddramatig rhwng 2018 a 2024.**
- **Ar ôl cyrraedd uchafbwynt yn 2014, mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon yn Sir Benfro wedi gostwng yn sylweddol.**

# 15 Mwynau

15.1.1 Ym mis Ebrill 2024, roedd pum chwarel yn weithredol yn y Parc Cenedlaethol

| Enw'r safle | Math o fwyn | Wrth gefn (ar y dyddiad) | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Chwarel Caeriw | Calchfaen | 3.7Mt (2012) | Gweithredol - daw'r caniatâd i ben yn 2042, caniateir hyd at 150,000 tunnell y flwyddyn. |
| Rhyndaston | Carreg Igneaidd | 1.65Mt (2002) | Gweithredol - daw'r caniatâd i ben 31 Rhagfyr 2026. |
| Syke | Carreg Igneaidd | 2.2Mt (1998) | Gweithio'n ysbeidiol. Anweithredol ers 2009. Daw'r caniatâd i ben ym mis Chwefror 2042. |
| Pantgwyn | Tywod a graean | 1.1 Mt (2008) | Daw'r caniatâd i ben 16 Mawrth 2031. 80,000 tunnell y flwyddyn. |
| Trefigin | Tywod a graean | 1.445 Mt (2006) | Daw'r caniatâd i ben 16 Mawrth 2040. 80,000 tunnell y flwyddyn. |

15.1.2 Nodir un chwarel segur ym Mhenberry gyda dros 112,000 tunnell o ithfaen wrth gefn. Gwnaed Gorchymyn Gwahardd ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gadarnhad.

DRAFT